CLONC

www.clonc.co.uk

ISSN 1753-1071

Rhifyn 274 - 50c
Mehefin 2009

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

Merched yn gwaredu eu Bronglymau

Tudalen 12

Cadwyn arall o gyfrinachau

Tudalen 16

Diwrnod Mawr Tîm Llambed

Tudalen ôl

Ysgol Cwrtnewydd yn 50 oed

Mwy ar dudalen 9

O gwmpas y fro

Disgyblion Ysgol y Dderi yn ceisio dal modurwyr yn gor-yrru heibio'r ysgol, gyda P.C. Owen, PCSO Richard Price, Mark Williams, AS; Cyng. Odwyn Davies, Cadeirydd Cyngor Sir; PCSO Ryan Jones a'r Rhingyll Alison Rees.

Hanuman, Cerian, PC Ryan Jones, Ffion, Sophie a Joshua Ysgol Llanwnnen yn barod i gymryd eu prawf beicio.

Disgyblion Ysgol Llanybydder gyda Dewi Pws.

Pat Jones, Delor James a Hedydd Thomas o'r Ysgol Gyfun a fu'n cymryd rhan yn cerdded dros Ymchwil y Cancr.

Plant Ysgol Ffynnonbedr a ddaeth yn y deg cyntaf yng Nghystadleuaeth Trawsgwlad y Sir - Caitlin Page, Cory Jenkins, Thomas Willoughby, Ffion Green a Grace Page.

Yng nghystadleuaeth Cwis Llyfrau Ceredigion enillodd Sara Evans, Caitlin Page, Leanne James a Rhys Jones, aelodau tîm Ysgol Ffynnonbedr, y drydedd wobr.

Cyflwynwyd siec o £1,100 i'r Parch Goronwy Evans a'r Bon. Cyril Davies, Pwyllgor Llanbed a Llanybydder o Ymchwil Cancr UK gan brif swyddogion yr Ysgol Gyfun a siec o £500 gan Mrs Llunos Bowen Banc Lloyds TSB.

Cerddodd Susan Evans, rheolwr Banc Barclays Llambed, gyda nifer o ffrindiau ar Ddydd Calan Mai, i fyny Penyfan. Codwyd swm sylweddol tuag at Uned Arennau Ysbyty Treforys. Noddwyd y daith gan Fanc Barclays.

Pwy yw pwy?

Golygydd:

Mehefin	Eifion ac Yvonne, Afallon, Drefach	480590
Gorffennaf	Marian Morgan, Glasfan, Drefach	480490
e-bost:	golygydd@clonc.co.uk	
Tîm Golygyddol:	Eifion ac Yvonne Davies, Elaine Davies, Dylan Lewis, Rhian Lloyd a Marian Morgan	
Dylunydd:	Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann	422349
Swyddog Dosbarthu	Eifion Davies, Afallon, Drefach	480590
e-bost:	bedwyr@btopenworld.com	
Teipyddion	Nia Davies, Maesglas	480015
	Joy Lake, Llambed	

Gohebwyr Lleol:

Cellan	Meinir Evans, Rhydfechan	421359
Cwmann	Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen	422922
Cwmsychbant	Mary Davies, Maesglas, Drefach	480015
Llanwenog/Drefach	Mary Davies neu Eifion Davies	
Ffaldybrenin/Ffarmers	Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers	01558 650507
Gorsgoch	Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod	434238
Llambed	Janet Evans, Haulfryn	422856
Llanfair	Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn	493407
Llangybi a Betws	Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynnon	493325
Llanllwni	Dewi Davies, Glanafon	480218
Llanwnnen	Meinir Ebbsworth, Brynamlwg	480453
Llanybydder	Menna Jones, Ceginau Lifestyle	480257
Pencarreg	Linda Thomas, Dolgwm Uchaf	422270

Beth yw beth?

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd	Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann	422349
e-bost:	cadeirydd@clonc.co.uk	
Is-Gadeirydd	Marian Morgan, Glasfan, Drefach	480490
Ysgrifenyddes	Mary Davies, Maesglas, Drefach	480015
Trysorydd	Nia Davies, Maesglas, Drefach	480015
e-bost:	ysgrifennydd@clonc.co.uk	
Ceidwad y Camera	Janet Evans, Haulfryn, Llambed	422856
Ffotograffwyr	Tim Jones, Llainwen, Llambed	422644
	Terry Jones, Awel y Grug, Cwmann	421173
Argraffwyr	Gwasg Aeron, Aberaeron	01545 570573

Gwerthfawrogir gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhaodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes. Mae cyfraniad pob un yn bwysig.

- Dyma gyfeiriad gwefan Clonc: **www.clonc.co.uk** os am fwy o wybodaeth.
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn CLONC.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol.
- Gellir gadael newyddion tu ôl y cownter yn siop bapurau Caxton Hall, Llambed.
- Gellir e-bostio newyddion at y golygydd yn syth: golygydd@clonc.co.uk
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Mae croeso i chi ddefnyddio eich camera eich hun. Defnyddiwn luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun.
- Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost i cadeirydd@clonc.co.uk .
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur.
- Gellir tanysgrifio i Clonc am £12 yn unig y flwyddyn. Cysylltwch â'r ysgrifenyddes.
- Nid yw'r golygydd o reidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

`Does dim cymeriadau heddiw!

Peidiwch byth a choelio hyn. Dau lanc o'r ardal wedi galw mewn siop sglodion yn Aberystwyth. Wedi talu am y bwyd a mynd allan, agor y bocs, a chanfod mae dim ond ychydig o sglodion oedd ynddo, er bod yna bysgodyn teidi. Aeth yn ôl i'r siop, - dangosodd y bocs i'r un wrth y til ac meddai wrtho "Ody'r pysgodyn yma'n fyw?" "Pam y'ch chi'n dweud na?" meddai'r un tu ôl i'r cownter. "Wel ma fe wedi bwyta hanner y chips!"

Chwarddodd, a rhoddodd rhagor o sglodion iddo'n syth. Safai perchennog y siop tu ôl i'r cownter hefyd, ond welodd e ddim byd i chwerthin amdano!

Ffordd fach hyfryd a doniol o gael ei neges drosodd.

Cymanfa Ganu.

Cafwyd canu da yn Soar Llambed yn ddiweddar. Nid wyf yn ganwr, ond rwy'n mwynhau gwrando. Cawsom ganu da a phleser oedd gweld a chlywed tyrfa dda o blant yn cyfrannu'n arbennig i'r Gymanfa. Yn ôl y 'Detholiad' a gafodd ei baratoi ar gyfer llawer o enwadau – trueni efallai na fuasai yna gyfle ar ddiwedd y nifer cymanfaoedd, i gael un tyrfa deilwg i greu noson o Ganu Cynulleidfaol yng ngwir ystyr y gair.

Cymysgedd

Oes mae na gymysgedd parthed arwyddion ffyrdd newydd ymddangosodd ar y ffordd i Gaerfyrddin yn ddiweddar. Rhaid eu canmol, - maent yn glir iawn ac i'w gweld o bellter, ond y trueni yw nad yw'r arwyddion ar ochr y ffordd yn cyd-fynd a'r arwydd newydd. Dengys yr un newydd 30 milltir yr awr ond y rhai ar ochr y ffordd 40. Mae angen i Geredigion fabwysiadu rhai o rhain.

Diffyg synwyr cyffredin.

Mae "CADW" yn cynnig mynediad am ddim i henoed(60 neu fwy) neu i blant (16 a llai), i ymweld ag henebion Cymru. Os oes rhai ohonoch fel fi ychydig fisoedd dros 60, mae'n fargen! Da iawn meddyliais,- dangosaf fy ngherdyn teithio bws, sy'n profi fy mod dros 60 ac yn byw yng Nghymru – ac fe fyddaf yn cwrdd â'r gofynion. Na! Mae'n rhaid i chwi lanw ffurflen "Ffurflen Gais am Bàs am ddim". Dyma sydd angen i chi wneud,

- Cael ffurflen o 'Etifeddiaeth y Cymry, Rhadbost CF1142/9, CAERDYDD CF24 5GZ
- Danfon llun gopi o 'Fil Cyfleustod' a naill ai llun gopi o Basport neu Trwydded yrru.

Ydy, mae'n werth y drafferth ond mae cyfyngu i'r ddwy drwydded yma yn eithaf anodd. Nid yw pob oedolyn yn berchen ar naill ai trwydded yrru, neu basport – ond mae ganddynt drwydded teithio!

Rwyf yn llanw ffurflen heddiw ac fe fyddaf yn danfon copi o hwn gyda'r ffurflen. Pwy a ŵyr – efallai y daw i sylw rhywun!!

Dyma ddigon o bregethu am y tro, pob hwyl i bawb,

Cofion

CLONCYN

Bwletîn

Gêm banel hwyliog Radio Cymru

Gary Slaymaker
yn cyflwyno

Caryl Parry Jones
Kevin Davies
Jâms Thomas
a Dylan Ebenezer

Clwb Rygbi, Llanbedr Pont Steffan
Nos Iau, 25 Mehefin, 7.30pm

Rhad ac am ddim - croeso i bawb

BBC radio cymru

Carpedi
Gwyn Lewis
Cyf
Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.
43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349

Gwesty'r Grannell
Llanwnnen
Bwyd cartref ardderchog,
Ystafell wydr newydd,
Yn arlwyo ar gyfer pob achlysur,
Ystafelloedd en-suite,
Trwydded ar gyfer priodas.
Cysylltwch â Susan neu Siriol
☎ 01570 480476

REFLEXOLOGY
Gall y driniaeth yma eich helpu, os ydych yn dioddef o'r canlynol:
* Blinder / diffyg egni
* Meigryn
* Sciatica
* Irritable Bowel Syndrome
* Menstural problems
* a mwy
Os am ragor o wybodaeth cysylltwch â Carol Rees
01545 590164
07929 559561

Tim Jones
Ffotograffydd
Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan
☎ 01570 422644

Oes angen cyngor arnoch?
Mae gennym arbenigedd cyfreithiol mewn sawl maes, megis:-
1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFIANT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A MODD I'W LEIHAU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.
Os hoffech fwy o wybodaeth mae croeso i chwi gysylltu â ni.
Arnold Davies
Vincent Evans
33 Stryd Fawr, Llambed
☏ 01570 422517 🖷 01570 423244

Enwau Lleoedd Lleol gan David Thorne

Enwau rhai afonydd a nentydd (3)

Y tro hwn byddwn yn ystyried Annell, Grannell, Glwydeth, Wthan, Hathren, Clydach a Hust.

Mae o leiaf un ar ddeg o nentydd ac afonydd yng Nghymru o'r enw Annell, ac amryw ohonyn nhw yn ne-orllewin Cymru. Mae'n ymddangos mai talfyriad yw 'annell' o 'rannell'. Y ffurf gyflawn yw 'ariannell' a hwnnw'n cyfeirio at ddŵr gloyw, clir o liw'r arian. Ond digwydd Ariannell, yn ogystal, yn enw ar berson; mae cymeriad o'r enw hwnnw'n cael ei goffáu yn Trerannell sydd rhwng Pen-y-bont a Maesteg yn Sir Forgannwg. Chwalwyd pentref Trerannell erbyn hyn a chollwyd yr enw pan adeiladwyd y Glamorgan County Lunatic Asylum yno yn 1864. Mae ysbyty seiciatrig ar y safle o hyd ond fe'i gelwir bellach yn Glanrhyd. Ar sail hyn i gyd, gallwn honni'n bur ddiogel mai Glanrannell yw'r ffurf hanesyddol safonol ar enw'r gwesty ger Crug-y-bar. Digwydd yr un cyfuniad o enwau ym mhlwyf Llanllawddog; mae'r nant yn codi ar Fynydd Ystafellau Carn gan lifo i Afon Tywi yn Felin-wen, rhwng Abergwili a Nantgaredig.

Mae'r enw Grannell hefyd yn cynnwys yr elfen 'rannell'. Mae Afon Grannell yn codi ym Mlaengrannell ger Sarn Lwyfen ychydig i'r de-ddwyrain o Ddihewyd, ac yn llifo heibio i Cribyn a Llanwnnen cyn ymuno â Theifi uwchlaw Alltyblaca. Yr un yw'r elfen sylfaenol ond bod 'g-' wedi datblygu ar ddechrau'r enw 'rannell', yn union fel y gwnaeth yn achos 'giâr' (iâr), 'gallt' (allt), 'garddwrn' (arddwrn) a 'gordd' (ordd).

Mae'r enw Nant Glwydeth yn Llanllwni yn enw hollol unigryw. Ni chofnodwyd yr enw yn yr un plwyf arall yng Nghymru ac felly rhaid bod yn ofalus iawn wrth geisio dehongli'r enw. Gallai'r elfen gyntaf 'clwyd' fod yn cyfeirio at ryd roedd angen clwyd o boptu neu o dan draed er mwyn mynd trwyddi'n hwylus. Os yw'r ddamcaniaeth hon yn gynaladwy, mae'r ffrwd fach hon yn Llanllwni yn perthyn i'r un dosbarth o enwau â Clwyd yng ngogledd Cymru ac, yn ogystal, i'r enw Gwyddelig ar brifddinas Iwerddon sef Baile Atha Cliath (Tref Rhyd y Clwydi).

Ym mhlwyf Llangeler ceir Nant Wthan sy'n codi ym Mlaen Gwthan ar Waun Wthan, ac yn llifo heibio i Ryd Wthan. Gellir cysylltu'r enw o ran ei ystyr â 'gwthio' ond mae'n bosibl hefyd mai enw personol yw Gwthan, ffurf amrywiol ar Gwythan, person sy'n cael ei goffáu yn Trewythan ym Maldwyn. Mae gwesty o'r enw hwnnw yng nghanol tref Llanidloes.

Mae Nant Hathren yn codi ym Mlaenhathren ar yr Esgair-wen ger Llan-y-crwys, ac yn rhedeg heibio i Felindre ac i Afon Teifi ychydig uwchlaw tref Llambed. Er mai Hathren yw'r unig ffurf sydd wedi ymddangos ar fapiau'r Arolwg Ordnans, mae'n bosibl mai Harthen oedd y ffurf wreiddiol; os felly gellir cysylltu enw'r afon hon ag enw dwy afon yn Ffrainc sef la Sarthe a le Sarthon a'r gwreiddyn cyffredin yn dynodi 'symud, mynd, rhedeg'.

Mae sawl Afon Clydach yn yr ardal. Mae dwy afon a elwir Clydach yn llifo i Afon Cothi, a digwydd yn enw ar lawer iawn o afonydd eraill yn ne Cymru yn ogystal; ni ddigwydd yr enw yng ngogledd Cymru. Roedd dylanwad y Gwyddelod yn drwm ar rannau helaeth o'r de yn yr Oesoedd Tywyll, ac ymdebyga'r enw Clydach i ffurfiau Gwyddelig sy'n dynodi 'afon gerigog wyllt'. Gwelir yr un elfen, o bosibl, yn enw Afon Clud (Clyde) yn yr Alban. Dadleuwyd mai Clywedog yw'r datblygiad cyfatebol i Clydach yng nghanolbarth a gogledd Cymru.

Mae Nant Hust yn codi ar fynydd Llanybydder gan lifo drwy Gwm Hust i ymuno ag Afon Teifi ger Henfaes, Llanllwni: mae Hust yn dynodi 'su' neu 'siffrwd' sy'n enw reit addas ar ffrwd o dd˜r sy'n 'sisial ganu' dros y cerrig ar ei thaith i Deifi.

Y tro nesaf byddwn yn sôn am afonydd du a gwyn.

O Siambr Cyngor Sir Gâr gan Pryfyn

Y cyhoeddiad diweddaraf i ddod dan ddrws Pryfyn oedd rhifyn Ebrill-Mai o 'Newyddion Cymuned Sir Gâr'. Roedd yn edrych yn addawol a deniadol: wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu; yn cynnig cyngor ar sut i arbed ynni ac am gynlluniau ailgylchu cyffrous ym mhentrefi gogledd Sir Gaerfyrddin. Lluniau lliw o'r holl gynghorwyr sir. A fan hyn roedd pethau yn dechrau mynd yn anniben: cynghorwyr wedi eu priodoli i wardiau anghywir, enwau merched dan luniau o gynghorwyr barfog cyhyrog, enwau wedi'u camsillafu. Ymddengys nad yw'r sawl sy'n gyfrifol am y cyhoeddiad yn adnabod cynrychiolwyr trethdalwyr Sir Gâr, nac yn adnabod Sir Gâr ac yn ei chael hi'n anodd gwahaniaethu, hyd yn oed, rhwng gwryw a benyw. Mae 'Newyddion Cymuned Sir Gâr' yn rhoi deimensiwn ychwanegol i'r dywediad 'canu allan o diwn'.

'Ry'n ni'n Gyngor sy'n gwrando,' medd Ms Meryl yn ei chyflwyniad i 'Newyddion' Ebrill-Mai. Y gwir amdani yw taw dim ond y deg aelod o'r Bwrdd Gweithredol sydd ag unrhyw wir ddylanwad ar benderfyniadau'r Cyngor. Nhw sy'n gosod y ddeddf i lawr yn Sir Gâr ac yn hawlio pob lwfans bras (+ treuliau) iddyn nhw eu hunain. Ar bwy maen nhw'n gwrando tybed?

Collodd deiliad y portffolio addysg ei barch yn gynnar am wrthod cwrdd â threthdalwyr a rhieni adeg ad-drefnu addysg gynradd yn Ffarmers, Llan-y-crwys a Chwmann. Erbyn hyn gellir ychwanegu Caeo, Capel Cynfab, Cilycwm, Cefnbrynbrain, Ystradowen, Llanarthne, Llansadwrn a Llanwrda, Cefneithin, Drefach (Llanelli), Llanymddyfri, Rhydaman, a Glan-y-môr. Mae hyd yn oed Meryl wedi sylweddoli o'r diwedd nad oes gan Ieuan Goronwy Jones yr hygrededd i gario'r maen i'r wal. Os yw'n gwrthod cwrdd â rhieni a threthdalwyr, sut yn y byd all e wrando ar ein barn ni'r rhieni o drethdalwyr? Petai'n aelod o gôr byddai wedi colli ei le am ganu'n fflat.

Ond mae ei bleidlais yn bwysig i gadw Meryl a'r Annibynwyr-Llafur mewn grym. Yn hytrach na'i ddiarddel o'r côr, dyma Meryl yn ei 'fflipio' o'r Bwrdd Gweithredol i gadair y Pwyllgor Craffu ar Addysg. Swydd a fydd yn diogelu ei lwfans bras; a swydd lle y bydd yn syllu ar ei annibendod ef ei hun. A dyma ar yr un pryd 'fflipio' Gwynne Wooldridge o gadair y Pwyllgor Craffu ar Addysg i'r prortffolio addysg ar y Bwrdd Gweithredol. Efallai nad oes gennym Gyngor sy'n gwrando, ond mae gennym Gyngor sy'n 'fflipio'.

Canlyniad y 'fflipio' yw bod lwfansau bras (+ pleidleisiau) dau o gefnogwyr Meryl wedi'u diogelu.

Ac eleni penderfynodd Politbiwro Sir Gâr ddosbarthu rhagor o lwfansau i ddiogelu pleidleisiau aelodau roedd eu teyrngarwch yn gwegian. Dyma ddechrau talu lwfans fras i'r is-gadeiryddion o bwrs y trethdalwyr – a phob un is-gadeirydd yn Annibynnwr-Llafur, wrth gwrs. Ac mae'r rheolau'n caniatáu hyn - am mai'r Politbiwro sy'n gosod y rheolau yn Sir Gâr. Ond a ydy hyn yn egwyddorol? Clywsom ddigon am wleidyddion yn gweithredu o fewn y rheolau ond yn groes i egwyddor dros yr wythnosau diwethaf. Yn sicr mae'n agwedd sy'n amhosibl ei gynnal gerbron trethdalwyr a phleidleiswyr bellach. Ond dyma'r tro cyntaf inni glywed am 'ddwbwl fflip Sir Gâr'. A bellach mae'n rhan o drefn gweithredu Cyngor Sir Gâr – a'r trethdalwr yn talu.

Dyma'r sefyllfa yn dilyn Cyfarfod Blynyddol Sir Gâr ar 20 Mai 2009: yr Annibynnwyr-Llafur wedi bachu pob lwfans a Ms Meryl yn arwain dirywiad pellach y gân.

Dyddiadur

ysgrifennydd@clonc.co.uk

MEHEFIN

6 Rali C.Ff.I. Ceredigion ym Mydroilyn.
6 Diwrnod codi arian i Ffagl Gobaith yng Ngwesty'r Glynhebog, Llambed gyda Cartin Finch a Meirion Owen a'r Quack Pack.
7 Taith Gerdded Ysgol Llanwnnen; dechrau o'r ysgol am 2y.p.
11 Anrhydeddu Iona Trevor Jones, Cwmann yn Neuadd P J Bangor am 1.30y.p.
12 Cyngerdd gan Gôr Cardi-Gân a phlant Ysgol Trefilan yn Theatr Felinfach am 7:30y.h.
13 Bore Coffi Sefydliad Prydeinig y Galon yn "Cameo" 10y.b tan 1 y.p
14 Tynnu'r Gelyn Llanwenog yn Ysgol Y Dolau, Llanybydder am 12 y.p.
19 Arddangosfa Goginio gan Dermott Slade (Prif Gogydd Dunbia a chyn gogydd y flwyddyn yng Nghymru) Theatr Felinfach 7.30 yh.
21 Hufen a Mefus o 4.30 – 6 ac wedyn yn dilyn, Côr Cwmann a'r cylch yn Neuadd Llanfair Clydogau.
21 Opra Cymru ym Mhafiliwn y Bont am 3 o'r gloch. Mynediad £13, £8 i blant
25 Recordio rhaglen Bwletin yn Nghlwb Rygbi Llambed 7.30 y.h.
26 Ras Sarn Helen Ysgol Felinfach. Plant ac oedolion.
27 Diwrnod Hwyl Ysgol Llanwenog.
28 Cymanfa Ganu yn Noddfa am 7 o'r gloch
28 Taith Gerdded Ysgol Carreg Hirfaen.

GORFFENNAF

4 Ffair Haf Ysgol Y Dderi.
4 Mabolgampau Pentref Drefach ym Maes yr Onnen i ddechrau am 2y.p. Mabolgampau, cystadleuaeth pel droed 6 bob ochr, BBQ a sel cist car. Manylion ar 01570 480785.
10 Ffair Haf Ysgol Llanwnnen am 4y.p.
11 Diwrnod Hwyl yng Nghanolfan Cwmann i ddathlu 30 mlynedd y Cylch Meithrin.
11 Mabolgampau Cwrtnewydd.
11 Garddwest yn Anedd Llanybydder am 2y.p.
12 Cyngerdd yng Nghapel Maesyffynnon, Llangybi gan Gôr Sain Teilo, Llandeilo. Elw tuag at y Capel. Tocyn £4.

AWST

1 Carnifal Llambed - Thema: 70au.
1 Ffair Fwyd Llambed yng Ngerddi Prifysgol Cymru Llambed.
8 Sioe a Threialon Cŵn Defaid Cwmsychpant.
14 Sioe Amaethyddol Llambed.
28 – 31 Eisteddfod Rhys Thomas James Pantyfedwen yn Ysgol Gyfun Llambed.
29 Ras Hwyl yn Ysgol Trefailan i blant ac oedolion a barbeciw a stondinau am 6y.h.
31 Sioe a threialon Cŵn Defaid Llanllwni ar gaeau Abercwm

MEDI

13 – 19Apêl y Gors – wythnos o godi arian gan bentref Gorsgoch.

HYDREF

3 Sioe Ffasiwn Duet gyda chinio a dawns yng Ngholeg Prifysgol Llambed. Elw i Sioe Frenhinol Ceredigion 2010.
5 Cinio Dathlu Diemwnt S.Y.M. Coedmor yng ngwesty Glynhebog.
14 Cwrdd Diolchgarwch Bethel Parcyrhos.
24 Perfformiadau gan enillwyr Ceredigion o'r Rhuban Glas yn yr Eisteddfod Genedlaethol yng Nghapel Soar, Llambed a'r elw i Sioe Frenhinol Ceredigion 2010.

Sioe Amaethyddol Llanbedr Pont Steffan

Caeau Pontfaen – 14 Awst 2009

Llywydd – Mr. Alun Williams, Crown Stores, Llambed.
Mynediad – Oedolion £6 Plant dan 14 £1

Dosbarthiadau – gwartheg, defaid, ceffylau, geifr, moch a sioe gwn.
Manylion ceffylau i law erbyn 26 Gorffennaf
Y babell – cynnyrch fferm, cynnyrch gardd, blodau, coginio, gwin, gwaith llaw, crefftau gwlad, ffotograffiaeth, cystadlaethau plant a'r Ffermwyr Ifanc.
Arddangosfa hen beiriannau fferm, Arddangosfa crefftau
Twrnament rygbi 7 bob ochr yn syth ar ôl y sioe.
Disgo noson y sioe

Mrs Gwen Davies, Llys Aeron, Llanwnnen – 01570 481152
Mr Aeron Hughes, Cwmhendryd, Llambed – 01570 422654

Bag Papurau Bro

am ddim i'r 200 aelod newydd cyntaf sy'n ymuno â Chlwb Clonc a thalu drwy archeb banc.

CEFNOGI CLONC 2009

Y ffordd orau a'r mwyaf ymarferol o gefnogi eich papur bro yw trwy ymuno â Chlwb CLONC. Rydym yn ddibynnol iawn ar yr incwm. Diolch am gefnogi.

CLWB CLONC

Byddem yn gwerthfawrogi petaech yn talu drwy archeb banc. Mae'n hawdd. Llenwch y ffurflen isod a'i dychwelyd at yr Ysgrifenyddes.

Archeb Banc yn unig

At Rheolwr Banc y / Manager of . . . . . .

Cangen / Branch . . . .

Wedi derbyn yr archeb hon, telwch i FANC NATWEST Llambed 53 61 42 CLWB CLONC 03451526 y swm o £5, £10, £15, £20* NAWR ac yna ar y dydd cyntaf o Orffennaf bob blwyddyn nes y rhybuddiaf chi ymhellach, telwch y swm o

£5, £10, £15, £20

Enw llawn / Name . . . . . .

Cyfeiriad Llawn / Address . . . . . .

. . . . . .

Rhif y cyfrif / Account no . . . . . .

Dyddiad / Date . . . ./. . ./09

Arwyddwyd / Signed . . . . . .

** Rhowch gylch o amgylch y swm y dymunwch roi**

neu...

os am dalu ag arian parod neu siec, llenwch y ffurflen isod a'i dychwelyd at yr ysgrifenyddes cyn diwedd mis Gorffennaf os gwelwch yn dda.

Amgaeaf tâl o £5, £10, £15 neu fwy.
**** Arian / Siec yn daliadwy i 'Glwb Clonc' ****

Enw: . . . . . .

Cyfeiriad: . . . . . .

. . . . . .

. . . . . .

CLWB CLONC Mehefin 2009

£25 rhif 145 : Marna Evans, Bwthyn y Dolau, Llanybydder.
£20 rhif 51 : Hyw ac Eva Davies, Or-nant, Llanwnnen.
£15 rhif 192 : Sioned Mai Gruffuths, Cefnrhuddlan-Isaf, Llanwenog.
£10 rhif 199 : Rhodri Hatcher, Abernant, Llanwenog.
£10 rhif 291 : Eiddig Jones, Gelliddewi-Uchaf, Cwmann.
£10 rhif 242 : Mrs Mair Jenkins, Glynmeherin, Gorsgoch.

O'r Cynghorau Bro

Cyngor Bro Llanllwni

Cadeirydd: Tom Jones; Clerc: Eirlys Davies; Gohebydd y Wasg: Dewi Davies; Cynghorydd Sir: Linda Evans. Cyfarfu'r Cyngor ar 11 Mai 2009.

Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod yn Neuadd Gymunedol y pentref.

Cydymdeimlwyd ag aelodau a oedd wedi colli anwyliaid.

Llongyfarchwyd Gohebydd y Wasg ar ddathlu ei benblwydd yn 70 oed.

Diolchodd Eurig Thomas i'r aelodau am eu cefnogaeth a'u cydweithrediad yn ystod cyfnod ei gadeiryddiaeth. Dymunwyd yn dda i'r cadeirydd newydd Tom Jones. Aeth y Cadeirydd newydd i'r gadair a pharhau â'r cyfarfod. Etholwyd Emyr Evans yn is-gadeirydd am y flwyddyn.

Nodwyd bod angen casglu sbwriel o gwmpas Mountain Gate. Bwriedir tynnu sylw'r gwasanaethau priodol at hyn.

Cadarnhawyd y byddai Lynne Beer, Hwylusydd Tai yn Ardaloedd Gwledig Cyngor Sir Caerfyrddin, yn mynychu'r cyfarfod nesaf i drafod sefyllfa tai gwledig.

Derbyniwyd llythyr o ymddiheuriad oddi wrth brif weithredwr y Cyngor Sir, Mark James, nad oedd y Clerc yn derbyn ymateb i ohebiaeth gan wahanol adrannau'r Cyngor Sir. Hyderir bod yr anawsterau wedi'u datrys erbyn hyn.

Penderfynwyd archebu pedair sachaid o Gennin Pedr i'w plannu o fewn y plwyf. Nodwyd bod sawl achos o waith cynnal a chadw heb eu cwblhau o fewn y plwyf.

Ymhlith yr elusennau a'r cyrff y penderfynwyd eu cefnogi roedd: Shelter Cymru, Ambiwlans Awyr Cymru, Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Urdd Gobaith Cymru, Marie Curie, Gofal mewn Galar, Macmillan, Ysgol Llanllwni, Pwyllgor Henoed Llanllwni, Clybiau Ff I Sir Gâr.

Ar Mai 1af bu cyfarfod gyda Rhodri Glyn Thomas AC ac Adam Price AS i drafod cyflwr difrifol heolydd bychan y plwyf; diffyg palmentydd yn y plwyf; yr angen am gilfan ger Ffynnon-ddrain; fformiwla cyllido ysgolion gwledig. Roedd y Cyngor Bro'n teimlo'n hollol rwystredig am nad oedd y Cyngor Sir wedi ymateb ers blynyddoedd i sawl llythyr gan y Clerc. Roedd y ddau Aelod yn synnu am y sefyllfa ac addawodd Rhodri Glyn Thomas y byddai'n cysylltu â Chyngor Sir Gâr am y materion hyn.

Ar fater fformiwla cyllido ysgolion, y gwir amdani yw mai penderfyniad Cyngor Sir Gâr yn unig oedd newid y fformiwla. Nid dyma'r fformiwla oedd yn cael ei ddefnyddio ar draws Cymru. Cydnabuwyd ei fod yn rhoi pob mantais i ysgolion newydd mawr ond yn anfanteisiol i ysgolion gwledig.

Cyngor Bro Pencarreg

Cadeirydd: Adrian Davies; Clerc: Eric Williams; Cynghorydd Bro a Sir: Eirwyn Williams; Cynghorydd Sir: Fiona Hughes

Yn ystod y mis cafwyd cyfarfod safle gyda Syrfewr y Cyngor Sir a dangoswyd deg safle iddo a oedd yn peri gofid i'r Cyngor Bro oherwydd bod angen gwneud cymaint o waith ar y safleoedd hyn. Yn dilyn cwynion gan y Cyngor Bro am y peryglon i gerddwyr ar y palmant cul ger Lleinau, cafwyd cyngor i ofyn i ddau o swyddogion trafnidiaeth y sir, Mr John McAvoy a Mr Alex Sage, i weld y man diffygiol.

Roedd y dŵr yn llifo ac yn difrodi'r ffordd ger Cardaog View ar Heol Cellan ac addawyd bod hwnnw i gael sylw yn brydlon.

Roedd angen gosod pyst ar ymyl y ffordd ger Ddeunant i rybuddio bod cwymp i Afon Eiddyg yn y fan honno.

Mae cyflwr yr heol a'r cloddiau i Gaer Gelliddewi yn ofnadwy, ac addawyd eu rhoddi ar y rhestr i'w ail darmacio.

Mae angen agor y gwter ger Pen Ffordd Las. Roedd eisiau cwrbiau i wella'r mynediad i stâd Cae Coedmor, a chyffordd Pen Hewl Fach.

Er bod y Cyngor Bro wedi cwyno'n gyson dros gyfnod o bedwar mis am gyflwr peryglus y wal o Gwmann i bont Teifi, roedd y wal yn dal heb ei thrwsio.

Mae'r arwydd rhybydd sydd i'w osod ar Sgwâr Brynmanhalog heb gyrraedd o hyd, a mynegwyd pryder nad oedd gyrrwyr sy'n troi i ffordd y A485 ger Fronhaul yn cael golwg glir o'r ffordd.

Mae'r bolards sydd i'w gosod ar ymyl y borfa ar gyffordd yr A482 a'r A485 ger Motorworld yn dal heb gyrraedd er bod addewid wedi ei wneud flwyddyn neu ragor yn ôl.

Derbyniwyd llyfryn swmpus a oedd yn egluro ac yn dangos bod plwyf Pencarreg ar lwybr hedfan yr awyrennau dibeilot o Faes Awyr Aberporth. Mae arddangosfa o'r cynllun yn Hen Neuadd Prifysgol Llambed rhwng dau a saith o'r gloch ar 29ain o Fehefin.

Cyngor Tref Llambed

Maer: Derek Wilson; Clerc: Eleri Thomas; Cynghorydd Tref a Sir: Robert (Hag) Harris; Cynghorydd Sir: Ivor Williams

Cyfarfu'r Cyngor ar 30 Ebrill 2009 yn Hen Neuadd Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Maer.

Roedd y canlynol yn bresennol yn ogystal: Mr Alfred Morris, Is-Ganghellor Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan. Dr Medwin Hughes, Darpar Is-Ganghellor Trindod Dewi Sant. Dr Brinley Jones, Llywydd Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan. Mrs Tricia Carter, Is-Lywydd Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan. Mr Gwyndaf Tobias, Cofrestrydd a Phennaeth y Weinyddiaeth Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan.

Hysbyswyd yr aelodau cyn cychwyn y cyfarfod o'r Cyngor am gynlluniau'r brifysgol newydd, sef Prifysgol Trindod Dewi Sant, a fyddai'n cael ei ffurfio trwy uno Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan a Choleg y Drindod Caerfyrddin. Dywedodd Mrs Tricia Carter, Is-Lywydd Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan y byddai'r sefydliad newydd, Prifysgol Trindod Dewi Sant yn gweithredu fel un sefydliad dan arweiniad Dr Medwin Hughes, y Darpar Is-Ganghellor, a Phrifathro cyfredol Coleg y Drindod.

Dylai Prifysgol Trindod Dewi Sant fod mewn bodolaeth erbyn Gorffennaf 2010. Bydd y sefydliad newydd yn adeiladu ar gryfderau ei ganghenau; bydd yn parchu hanes y ddau gorff; bydd, yn ogystal, yn ffurfio uned flaengar i hyrwyddo agenda'r Cynulliad Cenedlaethol o wella cyfleusterau addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Dechreuodd Dr Brinley Jones, Llywydd Prifysgol Cymru Llanbedr Pont Steffan, ei gyflwyniad trwy ddweud ei fod wedi'i ysbrydoli i wella safon ei ffitrwydd cyffredinol wedi iddo fynychu lansio 'Llwybr Bywyd' ym Mharc-yr-orsedd yr wythnos cynt.

Nododd Dr Jones fod y brifysgol yn Llambed wedi wynebu sawl her ers ei sefydlu yn 1822. Credai y byddai'r Brifysgol newydd yn gallu manteisio ar gryfderau gwahanol y ddau sefydliad. Byddai hynny'n sicrhau bod De Orllewin Cymru yn ddewis cyntaf naturiol i fyfyrwyr a chyflogwyr fel ei gilydd.

Mynnai Dr Medwin Hughes y byddai Trindod Dewi Sant yn canolbwyntio ar anghenion cymunedau yn ogystal ag anghenion ehangach yng nghyd-destun Cymru a'r byd. Byddid yn buddsoddi ar y ddau gampws ac yn y ddwy dref a byddai'r cyfleusterau newydd ar gael, yn ogystal, i drigolion y dref, a byddai'r sefydliad newydd o fudd i Lambed a Chaerfyrddin. Roedd angen cronfa ddatblygu o ryw £18m i gario'r maen i'r wal yn llwyddiannus. Cefnogodd y Cyngor y cais a oedd wedi'i wneud i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru am y swm hynny.

Trafodwyd anawsterau teithio rhwng dau sefydliad a oedd ryw 23 milltir oddi wrth ei gilydd. Dywedodd Dr Hughes fod strategiaeth farchnata rymus ar y gweill. Addawodd y byddai'n barod i siarad â chyngor y dref am gynnydd y sefydliad newydd unwaith neu ddwywaith y flwyddyn.

Diolchodd y Maer, Derek Wilson, am bob cefnogaeth a gafodd yn ystod ei dymor yn y swydd.

Roedd lês o dair blynedd ar Gae Maesyderi wedi'i gytuno â'r Cyngor Sir, a phenderfynwyd gosod yr eitem ar agenda yn y dyfodol er mwyn gallu ffurfio is-bwyllgor priodol.

Roedd seremoni sefydlu'r maer newydd wedi'i drefnu ar gyfer 1 Mai.

Penderfynwyd cefnogi Eisteddfod Llambed a'r Urdd.

Cynhelir y cyfarfod nesaf 28 Mai 2009 am 7.30 yn Neuadd yr Eglwys.

Cyngor Cymuned Llanwenog

Cadeirydd: Mary Thomas; Clerc: Wenella Evans; Cynghorydd Sir: Haydn Richards. Cyfarfu'r Cyngor ar 12 Mai 2009

Cynhaliwyd y cyfarfod blynyddol yn Neuadd y Pentref, Drefach a'r Cyng. Alun James yn llywyddu.

Yn unfrydol etholwyd Mary Thomas i'r gadair a Bill Green yn is-gadeirydd.

Bu trafod ar werth eiddo'r cyngor a nodwyd bod y praesept blynyddol wedi cyrraedd y banc.

Byddai'r cadeirydd a'r clerc yn mynychu cynhadledd flynyddol Un Llais Cymru ym Mhontrhydfendigaid yn yr hydref. Gofynnwyd i'r is-gadeirydd fynychu cyfarfod blynyddol y Cyngor Sir yn Aberaeron ar ran y Cyngor Cymuned.

Penderfynwyd anfon llythyr o gefnogaeth i Gapel Seion, Cwrtnewydd gan ei bod yn ceisio am grant yn y dyfodol.

Bydd y clerc yn cysylltu eto â'r Cyngor Sir gan nad yw arwydd Llanwenog wedi'i drwsio. Cynhelir y cyfarfod nesaf 23.06.09.

Cyngor Cymuned Llangybi

Cadeirydd: G Hicks, Clerc: Mrs Mair Spate, Cynghorydd Sir: Odwyn Davies. Cyfarfu'r Cyngor ar 6 Mai 2009

Penderfynwyd adnewyddu aelodaeth 'Un Llais Cymru' ynghyd â pholisi yswiriant y Cyngor. Derbyniwyd gwahoddiad i ymweld â'r Cynulliad, ac i Arddangosfa gan y Fyddin yn Aberystwyth.

Bydd cerbyd Heddlu Dyfed Powys yn ymweld â phentref Llangybi ar y dydd Mercher, cyntaf o bob mis. Mae heol Llangybi – Llanfair i'w hail-agor ar 22 Mai.

Derbyniwyd cais i roi carafan ar safle Haulfryn, a holiadur ar yr hawl i dramwyo.

Cynhelir cyfarfod blynyddol y Cyngor ar 10 Mehefin am 7:30y.h. yn Ysgol Y Dderi. Bydd croeso cynnes i holl drigolion y gymuned fynychu'r cyfarfod.

Penderfynwyd prynu rhagor i fylbiau Cennin Pedr.

Mae'n debygol mai cartref terfynol y gofeb, a oedd yn hen ysgol Silian, fydd yr Eglwys yn Silian.

Derbyniwyd cwynion am bostyn ffôn, a symudwyd golau nad oedd yn gweithio. Mae angen glanhau cysgodfannau bysiau.

Colofn y C.Ff.I.

Ceredigion

Cynhaliwyd Diwrnod Maes Cymru yn Ynys Môn eleni ar y 24ain o Ebrill. Dyma'r canlyniadau:- Menna Davies, Dihewyd yn ennill Stocmon Hŷn, 2il Tîm Stoc Hŷn sef Menna Davies, Dihewyd; Eleri Jones Tregaron; Steffan Davies, Llanwenog ac Emyr Jones, Mydroilyn, 3ydd Sialens ATV - Rhodri Hopkins a Dyfan Jones, Llangwyryfon. Llongyfarchiadau i bawb gan sicrhau fod Sir Ceredigion wedi dod yn 4ydd ar ddiwedd y dydd.

Ar y 1af o Fai cafodd arwyddion clybiau'r Sir eu datgelu mewn amryw o lefydd er mwyn hysbysu digwyddiad y Rali. Lliwgar a Deniadol yn wir!

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol NFYFC ar benwythnos 3 - 5 o Fai yn Blackpool eleni. Aeth criw o Sir Geredigion i gynrychioli'r sir. Cafwyd penwythnos da o dan y thema 'Super heroes'.

Blaen rhybudd o Ddigwyddiadau'r Sir

Mehefin 6 - Rali'r Sir ar fferm Gafryw, Mydroilyn.

Mehefin 6 - Dawns Noson Rali yng Nghelaeron, Neuaddlwyd, Aberaeron

Mehefin 7 - Cymanfa'r Rali yng Nghapel Mydroilyn

Mehefin 15 - Chwaraeon y Sir yn Ysgol Uwchradd Llambed

Mehefin 19 - Tynnu'r Gelyn yng Nghlwb Rygbi Aberaeron

Mehefin 21 - Rygbi 7 bob ochr yng Nghlwb Rygbi Aberaeron

Mehefin 22 - Athletau'r Sir yn Ysgol Uwchradd Llambed

Mehefin 28 - Chwaraeon Cymru yn Aberhonddu

Sir Gâr

Enillwyd cystadleuaeth rygbi saith bob ochr Sir Gâr gan aelodau o glwb Cwmann a Chapel Iawn ar nos Iau 21ain o Fai. Tomos Jones, Dafydd Jones, Gareth Williams (Capel Iwan), Carwyn Lewis, Rhydian Thomas, Bedwyn Rees (Capel Iwan), Llion Russell ag Owain Jones oedd aelodau'r tîm. Llongyfarchiadau i bedwar aelod gafodd eu dewis i fynd ymlaen i gynrychioli'r sir ar lefel Cymru yn y Sioe Frenhinol sef Bedwyn Rees, Dafydd Jones, Carwyn Lewis a Llion Russell.

Eirian Jones, Maesteilo, Capel Isaac (C.Ff.I Llanfynydd), Iestyn Russell, (C.Ff.I Cwmann), Rhydian Thomas, Llethrbledrig, Rhydcymerau (C.Ff. I Cwmann) ac Eirwyn Richards, Cwmcelynen, Pumsaint (C.Ff.I Dyffryn Cothi)- Tîm Stocman iau C.Ff.I Sir Gâr a wnaeth ennill y gystadleuaeth ar lefel Cymru yn Sir Fôn. Llongyfarchiadau i'r aelodau ar eu llwyddiant.

Sarn Helen

Cynhaliwyd Ras hŵyl Cwrtnewydd ar Ddydd Llun Gwyl Banc. Roedd 73 o blant yn cystadlu yn râs y plant, a Nicola Sykes o TROTS yn torri'r record yn ras y menywod. Carwyn Thomas o glwb Sarn Helen enillodd y ras 'dynion agored' mewn amser o 22 munud; 2il Andrew Abbott, Sarn Helen, 25munud 7 eiliad; 3ydd Gareth Elliott, Pembs Harriers, 25 munud 15 eiliad. Dynion 40: 1af Glyn Price, Sarn Helen, 22 munud 52 eiliad; 2il Michael Davies, Sarn Helen, 23 munud 5 eiliad; 3ydd, Roger Coombs,TROTS, 25 munud 19 eiliad. Dynion 50: 1af, Richard Marks, Sarn Helen, 25 munud 9 eiliad; 2il, Alan Thomas Williams, Pencarreg, 27 munud 42 eiliad; 3ydd, Peter Davies, Sarn Helen, 20 munud 3 eiliad. Enillodd Sarn Helen y tîm.

Menywod agored: 1af, Nicola Sykes, TROTS, 23 munud 37 eiliad– record y cwrs; 2il, Carys Davies, Sarn Helen, 26 munud 41 eiliad; 3ydd, Caryl Davies, Sarn Helen, 33 munud 38 eiliad. Menywod 35 , 1af, Jan Jones, Sarn Helen, 33 munud 53 eiliad; 2il, Jill Colman, Pembs Harriers, 34 munud 21eiliad; 3ydd, Alison Griffiths, Pembs Harriers ,41 munud 19 eiliad. Menywod 45, 1af Caroline Jones TROTS 27 munud 14 eiliad, 2il, Sue Lloyd, Pemb Harriers, 32 munud 25 eiliad; 3ydd, Barbara Thomas, 41 munud 19 eiliad.

Ras bechgyn dan 16:1af, Richard Gregory-Smith, Aberystwyth, 11 munud 17 eiliad; 2il, Heulyn Evans, Tregaron,16 munud 23 eiliad; 3ydd, Carwyn Davies, Sarn Helen, 19 munud 36 eiliad. Merched dan 16: 1af Sian Downs, Llangeitho, 13 munud 38 eiliad; 2il, Rhian Jones ,Sarn Helen, 14 munud 21 eiliad; 3ydd, Sioned Mair Jones, Aberystwyth, 14 munud 54 eiliad.

Bechgyn ysgol gynradd: 1af Jamie Rollins, Pontsian, 6 munud 39 eiliad; 2il, Aled Sion Jones, Aberystwyth, 6 munud 48 eiliad; 3ydd, David Thomas, Cwrtnewydd, 6 munud 53 eiliad. Merched: 1af Caitlin Page, Sarn Helen, 6 munud 25 eiliad; 2il, Rebecca McEnery, Llanwnen, 7 munud; 3ydd Luned Medi Jones, Cwrtnewydd, 7 munud 21 eiliad.

10K. O Neyland daeth yr enillwr i'r ail ras o'r mis. Glyn Price yn gorffen yn y drydydd safle ac yn cael y wobr gyntaf i'r dynion 40, mewn amser 35 munud a 31 eiliad; 7fed, Richard Marks, 30 munud 15 eiliad, ac yn cael cyntaf yn y dynion 50; 9fed, Mark Dunscombe ,40 munud 1 eiliad; 16ed, Carwyn Thomas, 42 munud 5 eiliad; 33 - Lyn Rees, 46 munud 48 eiliad; 58 - Caryl Davies, 52 munud 10 eiliad, a 81 Allen Watts 1 awr 28 munud 47eiliad. Sarn Helen yn ennill y tîm.

Bu Dawn Kenwright yn cystadlu yn ddiweddar yn ras 10K Maldwyn, a gorffennodd yn yr ail safle mewn 43 munud a 6 eiliad. ac hefyd yn Marathon Annecy yn Ffrainc, gorffennodd yn y drydedd safle mewn amwer o 3 awr 33 munud.

Dydd Sul roedd ras fynydd 16.5 o filltiroedd, Sarn Helen. Yr oedd y ras yma yn cael ei chynnal am y ddegfed mlynedd ar hugain. Ras hewl, traws gwlad a mynydd dros ardal brydferth Llambed. Cafodd y ras ei noddi gan Brodyr Jones Butchers, 4 Stryd y Coleg Llambed, a Dŵr Tŷ Nant.

Matthew Roberts o Eryri enilloedd y ras agored i ddynion mewn awr a 45 munud 31 eiliad; 2il ,Steve Rees, Port Talbot, 1 awr 48 munud 30 eiliad; 3ydd, Martin Shaw, Mynydd Du, 1 awr 51 munud 45 eiliad. Dynion: 1af Julian Baker, Les Croupiers ,1 awr 48 munud 9 eiliad; 2il, Michael Davies Sarn Helen, 1 awr 52 munud 4 eiliad; 3ydd, Glyn Price, Sarn Helen, 1 awr 52 munud 31 eiliad; Dynion 50: 1af, Martin Cortvriend, Clwydan Range Runners, 2 awr 11 munud 47 eiliad; 2il Peter Gareth MDC, 2 awr 12 munud 10 eiliad; 3ydd, Ross Powell, Mercia, 2 awr 12 munud 29 eiliad.

Menywod Agored: 1af Phoebe Webster, Aberystwyth AC, 2 awr 12 munud 16 eiliad; 2il, Caryl Davies, Sarn Helen, 2 awr 40 munud 28 eiliad; 3ydd, Sally Wilson, Ingli Runners, 2 awr 43 munud 55 eiliad. Menywod 35: 1af, Shan Roberts, Ingli Runners, 2 awr 6 munud 56 eiliad; 2il Clare Phillips, 2 awr 19 munud 34 eiliad; 3ydd, Jill Willcox, Ingli Runners, 2 awr 43 munud 58 eiliad. Menywod 45: 1af, Gill Stott, Chepstow Harriers, 2 awr 33 munud 43eiliad; 2il Sue Ashton, Chepstow Harriers ,2 awr 38munud 40 eiliad; 3ydd, Monica Barlow, Sarn Helen, 2 awr 42 munud 25 eiliad.

Ras plant ysgol gynradd: Bechgyn, 1af Iwan Evans, 15 munud 21 eiliad; 2il Tomos Lewis, Sarn Helen, 15 munud 26 eiliad; 3ydd, Jack Davies Richards, Sarn Helen, 18 munud 21 eiliad. Merched, 1af Caitlin Page, Sarn Helen,13 munud 25 eiliad; 2il Lleucu Ifans, Sarn Helen, 16 munud 15 eiliad; 3ydd Grace Page 17 munud 16 eiliad.

Bechgyn dan 15, 1af, Alan Davies, Sarn Helen, 13 munud 20 eiliad; 2il, Heulyn Evans, Sarn Helen, 16 munud 8 eiliad; 3ydd, Jordan Ling, Sarn Helen, 18 munud 1 eiliad, Merched: 1af, Rhian Jones, Sarn Helen, 14 munud 47 eiliad; 2il Nicola Jones, a Fflur Davies, Cwmann, 18 munud 51 eiliad.

Bechgyn dan 18: 1af Kyle Fulcher, Port Talbot, 32 munud 36 eiliad; 2il Rhys Evans, Sarn Helen, 37 munud 5 eiliad. Merched 1af, Natalie Jones, Sarn Helen, 45 munud 46 eiliad.

Yn ddiweddar bu rhai o'r rhedwyr yn Trap Llandeilo, yn cystadlu ras o 4.6 o filltiroedd. Huw Price yn cael cyntaf yn y dynion 40, ac yn gorffen yn y chweched safle mewn amser o 30 munud a 12 eiliad, ac enilloedd Rhian Jones ras y plant. Hefyd yn cystadlu roedd Gethin Jones, Rhys, Heulyn a Rhydian Evans.

Drefach a Llanwenog

C.Ff.I.Llanwenog

Mae'n anodd credu bod mis arall wedi mynd heibio ers yr adroddiad blaenorol. Efallai eich bod wedi sylwi ar yr arwyddion lliwgar sydd o gwmpas y sir, o glowns i glipfwrdd ffilmiau. Cystadleuaeth yw hon gyda'r sir i greu arwydd sy'n hysbysebu'r rali; bydd yr enillydd yn cael ei ddatgelu ar ddiwrnod y rali. Tybed faint ohonoch sydd wedi gweld arwydd Llanwenog?

Cafwyd noson bleserus iawn nos Lun gŵyl y banc ar y 4ydd o Fai lle roedd aelodau, arweinyddion a ffrindiau'r clwb yn cymeryd rhan mewn helfa drysor. Fe fuodd lot o grafu pen – credwch fi! Llongyfarchiadau i'r buddugwyr sef Huw Evans, Alltgoch a Peter a Meinir Ebbsworth, Brynamlwg. Llongyfarchiadau hefyd i Dai a Wendy Davies, Caerwenog a ddaeth yn ail. Diolch yn fawr i Huw a Bethan Rees, Tanrhos am drefnu'r helfa.

Ar yr 11eg o Fai, teithiom i fferm Rhos y Gadair Fawr, Blaenannerch at Phil Reed. Cafwyd noson addysgiadol iawn wrth cael ein tywys o amgylch y fferm. Pleser oedd gweld yr holl stoc, yn enwedig y da Ayrshires, sydd wrth gwrs yn enwog gan eu bod yn dda brenhinol.

Daeth llwyddiant pellach i ddwy o aelodau'r clwb mewn Eisteddfodau lleol yn ddiweddar. Elin Jones yn ennill y gadair yn Eisteddfod Capel y Groes a thlws llên yr ifanc yn Eisteddfod Llandudoch. Luned Mair yn ennill tlws llên yr ifanc yn Eisteddfod Maenclochog. Da iawn chi ferched!

Yr oedd cystadleuaeth chwaraeon y sir wedi ei drefnu ar gyfer y 16eg o Fai, ond oherwydd y tywydd gwlyb, penderfynodd y sir fod rhaid ei ohirio. Nid yw'r dyddiad newydd wedi ei benodi eto.

Mae clwb tynnu'r gelyn Llanwenog yn cynnal cystadleuaeth ar y 14eg o Fehefin ar gaeau plas y Dolau, i gychwyn am hanner dydd. Dewch i gefnogi! Mae hyn yn ymarfer da i fois y clwb a fydd yn cystadlu yn tynnu'r gelyn y sir nos Wener y 19eg o Fehefin, yng nghlwb rygbi Aberaeon am 7 yr hwyr. Os ydych am weld gemau rygbi, dewch nol erbyn 2.30 y pnawn, ar ddydd Sul, 21ain o Fehefin i weld cystadleuaeth rygbi'r sir.

Yr ydym ar hyn o'r bryd yn brysur iawn yn paratoi ar gyfer y rali. Cofiwch ddod i gefnogi, dydd Sadwrn y 6ed o Fehefin 2009 ym Mydroilyn. .

Eglwys Santes Gwenog

Braf oedd croesawu Esgob Tyddewi, Y Gwir Barchedig Wyn Evans i'r Eglwys yn ystod ei ymweliad a'r ddeoniaeth. Daeth nifer dda o offeiriaid ac aelodau i ymuno gyda'r Esgob a'r Ficer y Parch Bill Fillery yng ngwasanaeth Y Cymun Bendigaid. Cafwyd anerchiad diddorol a phwrpasol gan yr Esgob cyn iddo ymweld ag athrawon a disgyblion Ysgol Llanwenog. Diolch i'r gwragedd am baratoi te a lluniaeth ysgafn i bawb.

Yng nghyfarfod Festri'r Pasg , derbyniodd y Ficer ymddiswyddiad y ddwy warden sef, Mary Thomas a Pauline Roberts-Jones. Derbyniodd Keith Goodall wahoddiad i fod yn Warden y Ficer. Mae Warden y Bobol i'w benodi yn y dyfodol agos. Diolchwyd i Mr a Mrs Goodall am eu parodrwydd i barhau fel ysgrifennydd a thrysorydd i'r P.C.C. Diolchwyd iddynt hwy ac i'r swyddogion eraill am eu cydweithrediad yn ystod y flwyddyn gan y Ficer.

Ymfalchiwn yn llwyddiant tair o'r aelodau ifanc, - Rhian Thomas, Llechwedd a enillodd gwpan am y sgôr orau mewn cystadleuaeth yng Nghlwb Golff Aberdyfi. Yn ychwanegol dau gwpan arall am ddwy rownd arall a sicrhaodd sgôr o -5 o dan pâr. Diwedd Mis Mai bydd yn cynrychioli Cymru yn Cork yn Iwerddon. Dewiswyd hi hefyd i ymuno â'r tîm Ewropiaidd i gynrychioli Cymru yn Bled-Slovania diwedd Mehefin. Pob hwyl i ti Rhian.

Llongyfarchiadau i Gwennan Davies Llysderi a fu'n ymgeisydd llwyddiannus yn y Regeneration Office gyda Menter Aberystwyth i ddechrau Mehefin y 1af. Mae ar hyn o bryd yn cwbwlhau cwrs MSc ym Mhrifysgol Caerdydd.

Dymunwn yn dda i Nia Evans, Maesgwyn sy'n dechrau ar swydd newydd gyda Chyngor Ceredigion. Bydd Nia yn gweithio gyda phobol ifanc ag anghenion arbennig. Bydd yn parhau i weithio un diwrnod yr wythnos yn Ysbyty Glangwili.

Braf yw gweld Jim Evans, Frowen ar wellhad wedi triniaeth llawfeddygol yn ddiweddar. Rydym y falch clywed fod Mrs Eva Davies yn dal i wella yng nghartref Hafandeg.

Llongyfarchiadau i May Griffiths Blaenpant a Mary Davies Maesnewydd, y ddwy yn dathlu penblwydd arbennig.

Bu Merched y Wawr Cynghordy a Merched y Wawr Cwmffrwd yn ymweld â'r Eglwys yn ddiweddar.

Dymuna Mary Thomas ddiolch yn ddiffuant i wragedd yr Eglwys am eu cefnogaeth a'u parodrwydd i gynorthwyo ar bob achlysur yn ymwneud â'r Eglwys yn ystod y blynyddoedd y bu'n Warden.

Clwb Cant:- Miriam Butcher £15.00; Anita Evans £10.00; Carys Jones £5.00

Cydymdeimlwn â phawb sydd yn anhwylus neu wedi colli annwyliaid yn ddiweddar.

Llongyfarchiadau i Rosemary a Danielle Bracey, Manorafon, sy'n dathlu penblwydd arbennig. Danfonwn ein dymuniadau gorau i'r ddwy, a dymunwn wellhad llwyr i Rosemary sy'n derbyn llawdriniaeth yn ysbyty Caerdydd.

Rhieni Ysgol Llanwenog yn cydweithio gyda'u plant yn ystod sesiynnau Iaith a Chwarae. Diolch i Mrs Mary Jones am drefnu'r cyfnodau yma o gydweithio.

Ar Wellhad

Da yw gweld fod Gareth Davies, Dolgader, ar wellhad wedi triniaeth llawfeddygol yn ddiweddar.

Y Gymdeithas Hŷn

Troi golwg tua'r de oedd hi ym mis Mai wrth i'r aelodau fynd ar ail daith yr haf. Ymweld yn gyntaf â Chanolfan Arddio yn Nhreforgan, yng nghysgod Castell Coch; (mae'n siwr fod darllenwyr Clonc wedi gweld ei hysbyseb ar y teledu!). Digon i weld yno, a chaffi hyfryd am hoe a phaned.

Ymlaen wedyn ychydig o filltiroedd i Gaerffili. Y tywydd ddim yn caniatau eistedd o gwmpas y castell, ond pawb yn mwynhau ychydig o siopa cyn teithio'n ôl i Langennech am bryd blasus cyn troi am adre.

Bydd y daith nesa'n mynd i Wrecsam ac Erddig, dydd Mercher, Mehefin 10fed,- y bws i ddechrau o Lambed am 8 o'r gloch. Enwau i Yvonne 480590.

Wales Smithsonian Cymru 2009

Bydd Hazel Thomas o Drefach Llanwenog yn ymuno ag oddeutu 100 o berfformwyr a chrefftwyr o Gymru i arddangos Cymru yng nghanol Washington DC am 10 niwrnod ym mis Mehefin a mis Gorffennaf.

Bydd gan brifddinas yr Unol Daleithiau ymdeimlad cryf o Gymreictod yr haf hwn, gan mai Cymru fydd y brif wlad mewn gŵyl ddiwylliannol fawr yn y ddinas. Bydd Hazel yn rhan o weithgarwch Wales Smithsonian Cymru yng Ngŵyl Werinol y Smithsonian, a gynhelir ar y National Mall yn Washington DC - lle cafodd Arlywydd Obama ei urddo.

Bydd ardal Cymru yn yr ŵyl, a fydd tua phedwar cae pêl-droed o faint, yn cynnig blas o fywyd diwylliannol Cymru i ymwelwyr drwy amrywiaeth o ardaloedd thematig - Cymru yn y Byd; Iaith a Llên, Diwydiant, Treftadaeth ac Arloesi; Adeiladau a Thirweddau; Ecotwristiaeh a Hamdden; Cartref a Chymuned; Ar y Glannau; Cerddoriaeth a Dawns – y cyfan ar lwyfannau i bobl glywed amrywiaeth o gerddoriaeth a barddoniaeth o Gymru. Bydd y safle'n adlewyrchu tirwedd Cymru ac yn cynnwys eitemau felt tŷ unnos, pyst rygbi, ffensys metel, llechi a waliau cerrig.

Meddai Hazel (a fydd yn coginio fel un o'r chwech cogydd sydd wedi eu dewis i wneud hynny) "Mae hyn yn gyfle gwych i mi arddangos fy ryseitiau a rhannu hanes fy nheulu i gynulleidfa fawr. Gŵyl Werinol y Smithsonian Festival yw un o brif wyliau diwylliannol yr Unol Daleithiau, gyda mwy na miliwn o ymwelwyr bob blwyddyn. Rwy'n falch o gael cymryd rhan a hybu proffil Cymru yn Washington, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru, a bydd cyfle i mi gynnig 'blas ar fwyd' o gefn gwlad Cymru, i ymwelwyr niferus yr ŵyl, o UDA a thu hwn.

Ysgol Llanwenog

Braf unwaith eto yw mynd â phlant Dosbarth y Babanod i nofio yn Llambed ac mae'r datblygiad yn hyder y plant yn y dŵr yn hyfryd i'w weld.

Bu holl aelodau'r Urdd yn Jambori 2009 yng nghwmni Gwenda Owen a'r Band yn Llangrannog. Daeth Mr. Urdd a'r drygionus Bili Bom a Coblyn i ymuno yn yr hwyl. Cawsom ddiwrnod i gofio ar ddiwedd mis Ebrill pan ymunodd ein Hesgob newydd, sef y Gwir Barchedig Wyn Evans â ni yn ein Gwasanaeth Boreol. Hyfryd oedd cael y cyfle i groesawu ef yn ôl, ers pan fu am gyfnod ynghlwm â Chorff Llywodraethol yr ysgol. Ehangwyd dealltwriaeth y plant yn ystod y Gwasanaeth ar faterion yn ymwneud â Chonffirmasiwn. Cymerodd y plant ran hefyd yn y gwasanaeth trwy ganu emyn, chwarae offerynnau amrywiol a gweddio. Dechrau campus i'r wythnos!

Braf ydyw croesawu Daniel Spratling o Bontyberem i Flwyddyn

Drefach a Llanwenog

6. Ymunodd Daniel gyda gweddill Blwyddyn 6 i greu Teclyn Taclus i'r Bwrdd mewn gwers Dylunio a Thechnoleg o dan ofal Mr. Alun Jones.

Ar ddiwrnod arall bu'r un plant eto yn Ysgol Uwchradd Llambed a dyma adroddiad Emma McEnery am y diwrnod:

'Roeddwn yn teimlo'n nerfus iawn ar y bws wrth fynd i Ysgol Uwchradd Llambed. Ond pan gyrhaeddais yr ysgol teimlais llawer yn well wrth weld rhai o fy ffrindiau o Ysgol Ffynnonbedr. Daeth Ms. Daniels i gwrdd â ni o'r bws a'n tywys o gwmpas yr ysgol. Cawsom wers Gwyddoniaeth gan Miss Mattie ac roedd yn llawn HWYL! Fe wnes i gwrdd â llawer o ffrindiau newydd ac rwy'n edrych ymlaen yn barod i'r tro nesaf'.

Profiad hollol newydd i blant Blwyddyn 3 a 4 eleni oedd cymeryd rhan yng Nghystadleuaeth Trafod Llyfr Ceredigion. Gwnaeth Sion Davies, Rhys Evans, Kurtis Davies a Ffion Evans drafod 'Ffair Arswyd' a gwnaeth Gwen Thomas, Lowri Davies, George Greenfield, Nancy Doyle, Ffion Evans a Kurtis Davies gyflwyniad o lyfr Matilda. Roedd eu perfformiad yn y ddwy ran yn un canmoladwy iawn a'u dymuniad yw cael y gyfle i gymeryd rhan yn y gystadleuaeth hon y flwyddyn nesaf eto. Diolch i'r rhieni am gynorthwyo i baratoi'r plant, i Mrs. Marian Morgan am ysgrifennu'r sgript ac i Mrs. Linda Davies am hyfforddi'r plant i berfformio.

Cafodd plant Blwyddyn 5 a 6 y cyfle i dreulio tridiau yng Ngwersyll yr Urdd Llangrannog. Dyma ychydig o hanes Carys Jones a Conner Boardman am eu hantur yn y Gwersyll. 'Roeddem yn teimlo'n gyffrous bore Dydd Mercher, y 6ed o Fai wrth i ni gyrraedd y Gwersyll. Buon ni yn gwib-gartio, marchogaeth, nofio, sgïo, mynd ar hyd cwrs rhaffau, a threuliom un bore yn mynd am dro i'r traeth. Ar y nos Iau cawsom ddisgo ond roedd yn rhy swnllyd i ni! Fy hoff beth oedd Marchogaeth. Gwnaethom lawer o ffrindiau da o Ysgol Cwrtnewydd. Daeth pawb yn ôl yn saff'.

Rydym yn cynnal gweithdai 'Iaith a Chwarae' yn yr Ysgol y tymor yma a dyma adroddiad Ffion Evans a Nancy Doyle.

'Bu plant y Babanod a'u mhamau yn brysur yn gwneud crefftau, er enghraifft binociwlars, mat bwrdd ac yn y blaen. Dywedodd un rhiant bod y syniad yn ffantastig oherwydd bod y plant yn cael cyfle i weithio gyda phlant eraill, athrawon a'u mamau.

Roedd Mrs M. Evans, hefyd yn teimlo ei fod yn syniad arbennig oherwydd ei bod hi fel athrawes yn cael cyfle i siarad â'r rhieni a gweithio'r gyda'r plant yr un pryd. Dywedodd Moe Willis, disgybl newydd yn y Dosbarth, ei fod yn mwynhau gweithio gyda'i fam yn gwneud crefftau arbennig.

Ymwelydd adnabyddus arall a ddaeth i'r ysgol ym mis Mai oedd Dewi Pws, y Digrifwr a Chanwr Pop enwog. A dyma beth oedd Tomos Evans a Charlotte Giles yn meddwl o'r ymweliad: 'Roedd Dewi Pws wedi dweud lot o jôcs. Roedd ef wedi darllen darnau allan o lyfrau T. Llew Jones, fel Tân ar y Comin. Buodd yn sôn am Clonc, sef ein papur bro lleol, Cylchgronau a Llyfrau Barddoniaeth. Cawsom ni ''book marker' a phensiliau ganddo. Cafodd pawb llawer o hwyl a sbri.

Gwerthfawrogiad

Trist yw nodi bod Mrs. Margaret Evans yn ymddeol o'i swydd fel athrawes Babanod ddiwedd yr Haf. Trefnir tysteb iddi mewn gwerthfawrogiad o 25 mlynedd o wasanaeth i Ysgol Gynradd Llanwenog. Os dymunwch gyfrannu cysylltwch â Nia Evans 01570 480396 neu Mandy O'Keeffe 01570 480381.

Cwmsychpant

Penblwydd Arbennig

Dathlodd Mary Davies, Maesnewydd ei phenblwydd arbennig yn 60 oed yn ystod y mis. Gobeithio i chwi fwynhau'r diwrnod.

Gorsgoch

Dyrchafiad

Llongyfarchiadau i Gareth Morgan, (Glwydwer gynt), Prifathro Ysgol Gynradd Nantgaredig, ar ei apwyntiad yn 'Bennaeth Llywodraethu a Chynhwysiad' yn Sir Gaerfyrddin.

Llanybydder

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Len ac Anona Ebenezer, Cedars ar ddod yn ddatcu a mamgu am y tro cyntaf, merch fach Beca i'w mab Gareth a Lilian yn Llambed.

Diolch

Dymuna Eurwyn, 47 Heol-y-Gaer ddiolch am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar ei benblwydd yn ddiweddar.

Dymuna Mrs Lena Williams sydd yng Nghartref yr henoed Hafan y Waun, Aberystwyth ddiolch am yr holl gardiau ac anrhegion a chafodd ar ei phenblwydd yn 80 oed yn ddiweddar.

Cwrtnewydd

Ysgol Cwrtnewydd

Yn ystod y tymor hwn mae plant y dosbarth bach wedi bod yn cael gwersi nofio ym mhwll nofio Llanbed, ac yn mwynhau'r profiad yn fawr iawn.

Aeth wyth o blant i gymryd rhan yn Nhrawsgwlad y Sir yn Llangrannog, a gwneud yn arbennig o dda.

Ar ddydd Llun Gwŷl y Banc cynhaliwyd ein gweithgareddau Calan Mai blynyddol. Eleni hefyd roeddwn yn dathlu penblwydd yr ysgol yn 50 oed. Croesawyd pawb gan Mr Ward ac fe wnaeth Mrs Marian Rees, Cadeirydd y Llywodraethwyr, roi anerchiad. Cafwyd araith pwrpasol gan Mr Eifion Evans, Cyfarwyddwr Addysg y Sir, a bu'n son am ei amser yma yn gwneud ei ymarfer dysgu. Roedd cacen hardd wedi ei pharatoi, a thorrwyd honno gan Meinir Davies a Rhodri Hatcher, Cymwynaswyr y Flwyddyn. Gollyngwyd hanner cant o falŵns aur a glas gan blant a staff yr ysgol.

Bu Mrs Wendy Davies Cadeirydd y Gymdeithas Rieni ac Athrawon yn son am y sedd hyfryd oedd y Gymdeithas Rieni wedi prynu er cof am Brifathrawes arbennig iawn, Mrs Sulwen Lloyd Thomas. Diolchodd i Alec Page am ei waith celfydd ac i Mrs Nanna Ryder am ysgrifennu pennill hyfryd a phwrpasol i roi ar y sedd.

Agorwyd y gwethgareddau gan y llywyddion, Mr a Mrs Lyn Rees, Tanrhos, sydd bob blwyddyn yn trefnu'r ras hwyl ar gyfer y diwrnod. Cyflwynwyd rhodd i'r ddau gan y plant ifancaf sef Danny Waterman ac Alaw Jones.

Braf oedd gweld cyn nifer o blant yn cymryd rhan yn y rasus.

Enillwyd tarian am y plentyn cyntaf yn ysgol Cwrtnewydd gan David Thomas.

Torrwyd record y ras 4 milltir i fenywod gan Nicola Sykes o glwb rhedeg Trots.

Cafwyd arwerthiant arbennig iawn a thynnwyd y raffl. Diolchodd Wendy Davies i bawb am wneud Calan Mai unwaith eto yn un mor llwyddianus. Braf yw cael cofnodi bod Cymdeithas Rieni ac Athrawon Cwrtnewydd wedi cydweithio yn arbennig o dda eleni eto i godi swm aruthrol o £5400!

Y dydd Mercher canlynol aeth deg o blant, dan arweiniad Miss Lowri Evans, i Wersyll yr Urdd Llangrannog. Cafodd y plant dipyn o hwyl yn merlota, chwibgartio, sgïo, beicio quad ac yn y blaen. Cyrhaeddodd y plant yn ôl yn yr ysgol brynhawn dydd Gwener wedi cael tri diwrnod o fwynhau a chymdeithasu, ond wedi blino'n lan!

Bu holl blant yr ysgol yn cymryd rhan yn Chwaraeon Potes yr Urdd a gynhaliwyd yn ysgol Ffynnonbedr. Cafwyd brynhawn o hwyl a sbri.

Bu Miss Hannah Jones yn Awstria am gyfnod o bedwar diwrnod dan

y fenter Partneriaeth ag Ewrop. Hwn oedd y trip olaf, felly bydd y cysylltiadau gyda'r ysgolion yn cael ei gwneud o hyn allan drwy e-bostio.

Aeth criw plant blwyddyn chwech i Ysgol Uwchradd Llanbed am y dydd. Cafodd y plant flas o ddiwrnod cyfan yn yr ysgol uwchradd. Roedd y naw wedi mwynhau yn fawr iawn ac yn edrych ymlaen yn eiddgar i fis Medi.

Bu plant y dosbarth bach yn gwylio Sioe Rala Rwdins yn Theatr y Mwldan, Aberteifi. Roedd y sioe yn werth ei gweld a'r plant yn mwynhau yn fawr iawn.

Yn ystod gwyliau'r haf bydd Wendy Davies, Hannah Jones, Eleri Jones a Lowri Evans - staff yr ysgol yn cerdded 60 milltir noddedig i godi arian tuag at Cancr Cymru. Ein bwriad yw dechrau'r daith yn Ynyslas fore Sul 2il o Awst a chyrraedd Llanrystud cyn iddi dywyllu. Yr ail ddiwrnod cerdded tua 23 milltir gan obeithio cyrraedd Llangrannog i swper. Y cymal olaf byddwn yn cyrraedd Aberteifi, cyn cwrdd nôl yng Nghefnhafod. Os oes unrhywun am ein noddi, cysylltwch â ni ar 01570 434273 neu 01570 481153 neu 07811 135 672.

Clwb Ffrindiau Mis Ebrill 2009:

£10.00 – Gethin a Siân Jones, Croesor, Cwmann, £5.00 – Linda Gibbons, Bryndelyn, Gorsgoch, £2.50 – James Thomas, Hengoed, Cwrtnewydd, £2.50 – Mr & Mrs W Phillips, 7 Lon Rhys, Pritchard, Llanymddyfri.

Mis Mai 2009: £10.00 – Wendy Evans, Parcyrhos, Blaencwrt, Llanwnnen, £5.00 – Sharon Morgans, Glwydwern, Blaencwrt, Llanwnnen, £2.50 – Alpha Jones, The Grove, Llanybydder, £2.50 – Ursula Furlong, Tremle, Cwrtnewydd.

Priodas Ruddem

Llongyfarchiadau i Emlyn a Pamela Davies, 4 Heol y Bryn, Cwrtnewydd a fydd yn dathlu Priodas Ruddem ddechrau Mehefin.

Priodas

Llongyfarchiadau i Ifor ac Eluned, 5 Caesarn ar eu priodas, Mai 23ain. Pob lwc i'r dyfodol.

Ceris Morgan
yn trin gwallt yn eich cartref

Torri a sychu, steilo a lliwio, cwrlo a gosod gwallt ar gyfer achlysuron arbennig.

Prisau rhesymol.
Ffoniwch: 07738 492613
Cwmann
ond yn barod i deithio'r ardal.

Terry Jones

Ffotograffydd
www.terrywjones.co.uk
1 Cwrt Deri
Cwmann
Llanbedr Pont Steffan
01570 421 173
07970825724

Mwnci ffwnci

Brodweithio
a Phrintio Dillad.
Darparu
Dillad Gwaith
a Hamdden.
Sioned Green
a **Mared Jones**
Nantgwyn,
Heol Llanfair
Llambed
☎**01570 423135**
07811917799 /
07968821035
mwnciffwnci@hotmail.com

COMPASS
OFFICE SUPPLIES
Am eich holl
ddeunydd swyddfa
Uned 19, Stâd Ddiwydiannol
Llambed, Heol Tregaron,
Llambed.
☎ 01570 422955
01570 422232

Toriad Taclus

Mae Toriad Taclus
Wedi newid siop
Mae ar Heol Caerfyrddin
Ger y Sgwâr Top

Ffoniwch Catrin ar 01570 481425

Cwmann

Clwb Ffermwyr Ieuainc Cwmann

Wedi ennill barnu stoc ar lefel sir aeth Iestyn Russell a Rhydian Thomas o glwb Cwmann ynghyd a dau aelod arall o'r sir ymlaen i gynrychioli'r sir Gaerfyrddin ar lefel Cymru yn y Diwrnod Gwaith Maes. Daeth llwyddiant ysgubol i'r pedwar drwy gipio'r tlws am y tîm barnu stoc iau gorau yng Nghymru. Cipiodd Iestyn Russell yr unigolyn gorau gyda'r marciau uchaf yn yr adran iau hefyd. Llongyfarchiadau i'r pedwar ohonynt.

Nos Wener y 24ain o Ebrill, trefnwyd noson arbennig iawn gan y llywydd, Mr Gary Douch. Aeth a ni i ymweld â fferm Ffynnon Grech, Crug-y-bar sef fferm 'Kid Me Not'- fferm o 500 o eifr o bob lliw a llun; busnes teuluol sy'n godro tua 250 o eifr pob bore a nos. Mae'r llaeth yn cael ei ddefnyddio i gynhyrchu gwahanol nwyddau megis Caws, Fudge, Siocled a 'smoothies' o wahanol flasau, pob dim yn cael ei gynhyrchu ar y fferm ond am y Caws. Ar ddiwedd y noson cafwyd cyfle i flasu a phrynu'r danteithion mae'r cwmni yn ei werthu.

Y nos Wener canlynol cynhaliwyd cystadleuaeth cneifio ar fferm Maestroiddyn. Er gwaetha'r tywydd gwael ddaeth nifer o'r aelodau ynghyd i gystadlu. Enillwyr y dosbarth nofis oedd Simon Jones; yr adran hŷn Rhydian Thomas; Geraint Thomas yn ennill y dosbarth cyn aelodau ac aelodau dros oedran. Diolch yn arbennig i'r llywydd a'i deulu am y croeso cynnes a gafwyd.

Bu'r aelodau yn brysur yn ystod yr wythnos canlynol yn paratoi yn ddiwyd ar gyfer y rali. Diolch i bawb a fu'n helpu gyda'r gweithgarwch. Daeth llwyddiant i Berwyn Hughes ar ddod yn fuddugol yng nghystadleuaeth trimio a pharatoi llo biff ar gyfer y cylch arddangos. Daeth Aled Thomas yn drydydd yn yr 'Halter making'; Sioned Russell yn drydydd yn y gystadleuaeth 'rhowch gynnig arni', a Rhydian Thomas a Iestyn Russell yn gydradd ail yn beirniadu defaid Lleyn.

Daeth y tîm iau yn 7fed, a'r tîm hŷn yn 12fed. Diolch i bawb am eu hymroddiad a'i hymdrech yn ystod y rali. Heb os uchafbwynt y dydd oedd seremoni'r llys genhades a'i dirprwyon. Mae'n rhaid dweud roedd Louise Jones a'r criw yn edrych yn arbennig o smart.

Wyres fach

Llongyfarchiadau i Richie ac Angela ar enedigaeth eu merch fach Ella Mai, yn ysbyty Dundee ar y 26 ain o Ebrill 2009. Wyres gyntaf i Kevin a Beryl Doyle, Cwmann.

Ysgol Carreg Hirfaen.

Dydd Mawrth, Ebrill 28ain, aeth Blynyddoedd 5, 6 a rhai o Flwyddyn 4 i Aberystwyth i chwarae pêl-droed.

Llongyfarchiadau mawr i Mared Owen a Sara Jones Ysgol Carreg Hirfaen a fu yn Nhrawsgwlad Cymru a gynhaliwyd yn Aberystwyth ar ddydd Sadwrn Fai 9fed. Ni effeithiodd y tywydd oer ar frwdfrydedd y merched, ac ar ddiwedd y ras cipiwyd y 5ed safle gan Mared ar 12fed gan Sara.

Louise Jones, Clwb Cwmann yn Lysgenhades yn Rali'r sir gyda'i brodyr a'i gwr.

Gwnaeth y plant yn dda iawn a chawsant ddiwrnod bendigedig.

Ar ôl dod trwodd i'r ail rownd o'r cwis llyfrau, aeth y cystadleuwyr i Bontyberem i wneud eu cyflwyniad, ac i ateb rhagor o gwestiynau ar y llyfr roeddent wedi astudio sef, 'Olion Hen Elyn' gan Elgan Phillip Davies. Daethant yn drydydd trwy'r sir. Llongyfarchiadau!

Bu cystadlu brwd yn y chwaraeon potes ar ddydd Llun, Mai 11eg. Roedd y gemau ar gae ysgol Ffynnonbedr. Cafodd pawb hwyl er iddi fod yn wyntog iawn.

Rhwng dydd Mercher Mai 13eg a dydd Gwener y 15fed aeth Blynyddoedd 5 a 6 i Fannau Brycheiniog ar wyliau addysgiadol. Gwnaethant ymchwiliadau afon, helfa hanesyddol, creu cysgodfa ac ymchwilio llygod. Uchafbwynt y gwyliau oedd dringo un o'r mynyddoedd sef Tor y Foel. Mynydd a oedd 551m o uchder. Er i rai flino'n lan, roedd pawb wedi llwyddo.

Cafodd plant Cyfnod Allweddol 2 llawer o hwyl yn paratoi ar gyfer cystadleuthau Celf a Dylunio yr Urdd. Bu blwyddyn 4 yn gweithio mewn grwpiau er mwyn creu prosiectau o fewn y thema 'Arwain'. Gweithiodd blwyddyn 5 a 6 ar yr un thema ond eu tasg hwythau oedd i greu argraffiad. Cipiodd Owen Douglas yr ail wobr a Sian Baddley y 3ydd wobr am eu gwaith.

Canodd plant Cyfnod Allweddol 2 ar dop eu lleisiau yn y Gymanfa flynyddol yn Llansawel ar Fawrth 30ain

Daeth Mr John Meirion Jones i ymweld â phlant C.A2 bore Llun, Mawrth 30ain. Adroddodd straeon am ei atgofion am yr Ail Ryfel Byd yn ogystal a dangos arteffactau diddorol ac anghyfarwydd.

Teithiodd plant C.A2 i Eglwys Henllan ar Ebrill 1af er mwyn gweld y man lle roedd carcharorion yn aros adeg yr Ail Ryfel Byd. Roedd yn brofiad bythgofiadwy.

Ar ddechrau tymor yr haf daeth myfyrwraig i ddosbarth blwyddyn 3 a 4. Gobeithiwn y bydd Mrs Meryl Tomos yn hapus yn y dosbarth ac yn mwynhau ei phrofiad yn yr ysgol am yr wyth wythnos nesaf.

Ar ddechrau'r tymor bu aelodau'r Urdd yn canu ac yn dawnsio yn y Jambori. Cawsant ddysgu cân newydd a ysgrifennwyd yn arbennig ar gyfer Eisteddfod Ceredigion 2010.

Daeth ymwelydd pwysig i weld plant Cyfnod Allweddol 2 ar Ebrill

Cwmann

23ain. Mae Ifor ap Glyn yn fardd plant Cymru am y flwyddyn a daeth i'r ysgol i ddysgu'r plant sut oedd mynd ati i gydio mewn geiriau er mwyn creu cerddi. Fel rhan o waith Addysg Grefyddol daeth y Ficer Dyfrig Lloyd i drafod ystyr Pererindod gyda phlant bl 5 a 6. Fe rannodd llawer o wybodaeth yn ogystal a storiau diddorol yn ymwneud â'r thema.

Trefnodd yr Urdd dwrnament criced i blant blwyddyn 4 ar y 5ed o Fai yn Llandysul. Gwnaethant yn dda iawn ac fe gafodd pob un ohonynt lawer o sbri yn bowlio ac yn batio.

Bu blwyddyn 3 a 4 yn ffodus iawn ar Fai 6ed, pan ddaeth Dewi Pws i ymweld â'r dosbarth. Trafododd rhai o'i hoff lyfrau er mwyn ceisio ysgogi mwy o ddiddordeb mewn darllen. Mwynhaodd y plant wrando ar ei straeon a chymryd rhan mewn cwis yn llawn cwestiynau ac atebion doniol.

Cafodd blwyddyn 3 a 4 amser arbennig o dda yng Ngwersyll yr Urdd Llangrannog ar Fai 11eg - 13eg. Cawsant gyfle i wneud amryw o weithgareddau, o feicio modur i sgio. Eu hoff beth oedd rasio ar y gwibgartiau. Rwy'n siwr y buasent wedi curo Lewis Hamilton!

Aeth merched blwyddyn 3 a 4 i Ysgol Ffynnonbedr i gael hyfforddiant pel rwyd. Buont yn dysgu sut i basio, symud a marcio cyn gorfod mynd yn ol i'r ysgol i gysgodi rhag y tywydd garw.

Ar Fai 1af bu nifer o blant blynyddoedd 3, 4, 5 a 6 yn rhedeg yn Nhrawsgwlad y Sir a gynhaliwyd yn Llangrannog. Llongyfarchiadau i bob un ohonynt. Daeth Mared Owen yn 1af, Sara Jones yn 7fed.

Yn ystod y tymor mae'r plant wedi bod yn nofio yn y gwersi wythnosol. I glodfori eu hymdrechion ac i ddangos eu cynnydd maent wedi derbyn tystysgrifau a bathodynnau i ddangos eu lefel cyrrhaeddiad.

Mis diwethaf fe gyhoeddwyd bod y PTA yn cynnal noswaith o Fingo er mwyn codi arian. Yn anffodus ni fydd y noswaith yma yn medru cael ei chynnal ar y dyddiad yma. Gobeithiwn y medrwn ei gynnal yn hwyrach yn y flwyddyn.

Eco ysgol - Mae nifer o'r plant wedi bod yn cymryd rhan yn yr wythnos "Cerdded i'r ysgol" o 18-22 o Fai. Da iawn chi yn enwedig o gofio'r tywydd.

Yn dilyn llwyddiant yr ysgol yn Eisteddfod Cylch yr Urdd aeth pum eitem ymlaen i'r Eisteddfod Rhanbarth ym mis Mawrth. Bu Siân Baddley yn chwarae clarinét a derbyn yr ail wobr, Mared Owen yn canu cerdd dant , hefyd yn derbyn yr ail wobr, a Julianna Barker yn adrodd i ddysgwyr a dod yn drydydd. Bu Parti Cerdd Dant yr ysgol yn cystadlu eleni am y tro cyntaf a chanu yn raenus iawn. Fe wnaeth côr yr ysgol hefyd gipio'r ail wobr yng nghystadleuaeth y corau.

Ar y 1af o Fai bu côr yr ysgol yn cystadlu yn Eisteddfod Pontrhydfendigaid gan gipio'r wobr gyntaf, a derbyn beirniadaeth arbennig o dda.

Ar y 3ydd o Ebrill cawsom gyngerdd ymddeoliad i'r ddwy athrawes sydd wedi ein gadael ar ddechrau'r flwyddyn, Mrs M Williams a Mrs G Harrison. Daeth llu o rieni, cyn-ddisgyblion a phobl leol i Neuadd y pentref i weld eitemau o ganu, adrodd a dawnsio i ddiolch i'r ddwy am eu gwaith yn yr ysgol.

Sefydliad y Merched Coedmor

Nos Fawrth Mai 5ed teithiodd 10 o'r aelodau i Ysgubor Harddwch Coed y Bryn ger Castell Newydd Emlyn. Roedd yno groeso mawr yn ein disgwyl ac fe gawsom ein tywys o amgylch i weld y salon a gweld gwahanol offer at wahanol driniaethau. Ar ol treilio orig pleserus iawn a phawb wedi mwynhau, talwyd pleidlais o ddiolch gan Noeleen , cyn teithio nol i Brengwyn a mwynhau pryd blasus o fwyd. Cafwyd cyfarfod byr i ddilyn a diolchodd Ann y Llywydd i Bethan a Helen a Gwyneth am y trefniadau i gyd a phawb wedi mwynhau. Gan fod y gangen yn dathlu ei phenblwydd diamwnt yn mis Hydref byddwn yn dathlu gyda chinio nos Lun Hydref 5ed 2009 yng Ngwesty Glynhebog. Croeso cynnes i aelodau newydd a chyn aelodau i ymuno â ni. Cysylltwch â Gwyneth ar 01570 422922

Ysbyty

Da yw deall fod Harold Tyhowel adref ar ôl treilio ychydig ddyddiau yn yr Ysbyty. Gobeithio dy fod yn teimlo'n well ac y byddi nôl gyda'r bingo yn gloi.

Babi Newydd

Llongyfarchiadau i Rhodri a Lynne, Cae Coedmor ar enedigaeth mab bach, Lloyd. Pob dymuniad da i'r teulu bach.

Clwb 225 Enillwyr Mai

1. Glyn Mason, 4 Treherbert; 2. David Williams, Ty Howell; 3. Aled Davies, Tremle; 4. Graham Evans, Fferm Felinfach; 5. Muriel McMullan, 44 Heol Hathren; 6. Eric Harries, Penparcau; 7. Bessie Lloyd, 14 Heol Hathren; 8. Mair Jones, Panteg, Pentrebach, 9. William Young, Temple Bar, 10. Miss Griffiths, 1 Treherbert.

Clwb 170 Enillwyr Mai

1. Edwin Harries, 8 Nant y Glyn; 2. Sonia Northam, 38 Bro Einon, Llanybydder; 3. Mr & Mrs Riekert, Cysgod y Coed; 4. Debbie Evans, Dan y Wenallt, Llanbed; 5. Mr & Mrs Hughes, Ramleigh; 6. Tom Jones, Caeralaw, Ram; 7. Mrs Jean

Iestyn Russell, Bryncelyn, Cwmann (C.Ff.I Cwmann) a wnaeth ennill Prif Stocman Iau y Flwyddyn yn Diwrnod Gwaith Maes C.Ff. I Cymru yn Ynys Môn. I ennill y gystadleuaeth yma roedd yn rhaid beirniadu Gwartheg godro, gwartheg biff, moch ac ŵyn tew. Yn ogystal roedd yn rhaid ateb papur milfeddygaeth.

Davies, 2 Heol y Maes Pencarreg; 8. Yvonne Davies, Cwmbrwyn, Pencader; 9. Edwin Harries, 8 Nant y Glyn; 10. Mrs. E. Lloyd, 14 Heol Hathren.

Brenhines y Blodau

Eleni mae NAFAS (National Association of Flower Arranging Societies) yn dathlu ei hanner can mlwyddaint. Iona Trevor Jones, sydd ers yn agos i ugain mlynedd wedi ymgartrefu yng Nghwmann, yw'r unig un o'r sylfaenwyr sydd wedi goroesi. Daeth Iona yn adnabyddus fel trefnydd blodau yn nyddiau cynnar teledu Cymraeg gan ymddangos yn rheolaidd ar y rhaglen 'Hamdden'.

Dydd Iau Mehefin 11eg, bydd Iona yn cael ei hanrydeddu yn ystod diwrnod arbennig iawn yn Neuadd P J Bangor. Trefnwir diwrnod o arddangosfeydd blodau rhwng 2 a 6y.p. gan nifer o enwogion y byd trefnu blodau.

Ym 1969 fe drefnodd Iona ei phererindod flodau gyntaf o Gaergybi i Dywyn gan dreulio tair blynedd yn ei chynllunio. Yna ym 1973 aeth â phererindod flodau i Efrog Newydd ar y QE2 a mynd â Nansi Richards Telynores Maldwyn gyda hi i gyfeilio ar y delyn. Mae Iona yn ei wythdegau erbyn hyn, yn berson unigryw gyda stôr o hanesion am ei theithiau i bedwar ban byd, ac ar fin cyhoeddi ei hunangofiant.

Llanllwni

Ysgol Llanllwni

Croeso i Hanna Thomas sydd wedi dechrau yn nosbarth y Babanod. Mae wedi setlo'n dda ac yn hapus ymhlith ei ffrindiau. Croeso hefyd i Miss Caryl Lloyd i ddosbarth Mrs Davies. Mae Caryl yn fyfyrwraig yng ngholeg y Drindod, Caerfyrddin. Gobeithio byddi yn mwynhau'r profiad o ddysgu blwyddyn 5 a 6.

Bu aelodau'r Urdd yng ngwersyll yr Urdd, Llangrannog yn cymeryd rhan mewn jambori. Mwynheuodd pawb ymuno yn y canu. Aeth Daniel Douglas, Scott Douglas, Gabi Wilton-Baker a Rhian Thomas i gystadlu yng nghystadleuaeth trawsgwlad yr Urdd Rhanbath Ceredigion yng ngwersyll yr Urdd. Llongyfarchiadau i ti Gabi am ddod yn ail. Treuliodd chwech o ferched sef Beth, Jasmine, Rhian Glasson, Mair, Sioned a Sophie benwythnos yng ngwersyll yr Urdd, Llangrannog. Cawsant amser da yn gwneud yr amrywiaeth o weithgareddau a chwrdd â ffrindiau newydd.

Aeth aelodau'r Urdd i Gemau Potes yr Urdd, Cylch Llambed ar gaeau Ysgol Ffynnonbedr brynhawn Llun, Medi 11eg. Mwynhawyd y gemau yn fawr.

Bu plant blwyddyn 6 yn ysgol Llambed am ddiwrnod er mwyn dod i adnabod a chyfarwyddo â'r ysgol erbyn dechrau ym mis Medi!!

Daeth Dewi Pws i ymweld â'r ysgol i gynnal gweithdy iaith gyda plant blwyddyn 3 a 4.

Mae pwyllgor rhieni a ffrindiau'r ysgol wrthi'n trefnu Rasus Ceffylau ar nos Wener, Gorffennaf 10fed yn Talardd er mwyn codi arian i'r ysgol. Croeso cynnes i bawb.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadaui Elin Jones, Tŷ Newydd, Maesycrugiau ar ennill 'Tlws Llenyddiaeth yr Ifanc' yn Eisteddfod Llandudoch yn ddiweddar. Da iawn ti.

Gwellhad buan.

Mae Charles Evans, Garden House wedi treulio peth amser yn Ysbyty Glangwili. Dymuna pawb o'i ffrindiau adferiad buan iddo a gobeithio ei weld yn ôl yn cyfarch pawb yn y mart unwaith eto.

Hefyd mae David Evans, Murmur y Coed wedi cael cyfnod yn Ysbyty Glangwili a dymunwn yn dda iddo yntau.

Pentrebach

Eisteddfod yr Urdd

Llongyfarchiadau i Rhian Lloyd, Pant-teg sy'n athrawes yn Ysgol Glynarthen am hyfforddi'r parti unsain buddugol mewn cystadleuaeth i ysgolion cynradd dan 50 o blant yn Eisteddfod Yr Urdd Caerdydd eleni.

Llanbedr Pont Steffan

Cymdeithas Hanes

Yn absenoldeb y Cadeirydd, croesawyd pawb i gyfarfod mis Mai gan Penny David. Yn ôl y rhaglen, hi oedd siaradwraig y noson, - ei thema "Aberglasni", ond roedd wedi trefni i Graham Rankin, cyfarwyddwr prosiectau yn Aberglasni ers 10 mlynedd, i ddod i siarad â'r Gymdeithas. Mae'n arbenigwr ar blanhigion arbennig a phrin.

Trwy gyfrwng sleidiau, gwelwyd cyflwr truenus y tŷ a'r gerddi dros ddegawd yn ôl, a'r darganfyddiadau yn dod i'r golwg wrth i'r clirio fynd yn ei flaen. Dangoswyd y datblygiadau yn y gerddi wrth iddynt cael eu trawsnewid o fod yn erddi coll o dan y gor-dyfiant, i'r hyn ydynt heddiw; rhai yn ffurfiol, eraill yn fwy hamddenol, ond y cyfan yn drysor o le i ymweld ag e. Mae'r gerddi'n newid drwy'r flwyddyn, felly'n creu gwledd i'r llygad pa bynnag adeg yr ewch yno. Bydd cyfle i'r aelodau ymweld ag Aberglasni ym mis Gorffennaf, ond dyw'r dyddiad ddim wedi ei benodi eto.

Ar y 4ydd o Fehefin, bydd cyfle i weld y darganfyddiadau pellach sydd wedi dod i'r golwg yn Ystrad Fflur. Bydd y diwrnod yng ngofal yr Athro David Austin. Os am ddod, cysylltwch â Cecilia Barton.

Pigion yr Eisteddfod

Daeth tyrfa niferus ynghyd i wrando ar fuddugwyr Adran ac Aelwyd Llambed yn perfformio pigion Eisteddfod yr Urdd yn neuadd Ysgol Ffynnonbedr yn ddiweddar. Croesawyd pawb i'r noson gan Llinos a hyfryd oedd cael cwmni Maer a Maeres y Dref sef y Cynghorydd a Mrs Derek Wilson ac hefyd y Cyfarwyddwr Addysg Mr Eifion Evans. Cafwyd amrywiaeth o eitemau yn cynnwys unawdau a llefaru unigol, grwpiau canu a llefaru ac eitemau offerynnol a'r cyfan o safon uchel iawn. Rydym yn ffodus iawn yn yr ardal i gael nifer o blant a phobl ifanc dawnus a disglair. Arweiniwyd y noson yn hwylus gan Geinor Medi, Helen, Guto a Llinos. Diolchodd Geinor i'r rhai a fu'n hyfforddi'r plant ac yn arbennig i Rhiannon Lewis ac Elin Williams am roi o'u hamser prin i hyfforddi'r partion, i Janet Evans am drefnu'r noson – mae dyled yr Adran a'r Aelwyd yn fawr i'r dair ohonynt am eu gwaith diflino. Diolchod hefyd i'r arweinwyr am eu cyfraniad arbennig, i'r cyfeilyddion Margaret Jones, Rhiannon Lewis a Hedydd Thomas, i'r aelodau am eu parodrwydd i gymryd rhan ac i Mr Huw Jenkins Prif-athro Ysgol Ffynnonbedr a'r gofalwr Barry Hughes am gael defnyddio'r ysgol. Diolchwyd hefyd i bawb a fu'n cynorthwyo i werthu tocynnau ac a fu'n helpu wrth y drws. Estynnwyd llongyfarchiadau i Elliw, Hedydd a Guto ar gael eu dewis yn aelodau o Gwmni Theatr Ieuenctid Urdd Gobaith Cymru. Bydd y tri yn perfformio yn y sioe gerdd 'Ffawd' sydd wedi cael ei hysgrifennu'n arbennig i'r Eisteddfod Genedlaethol a gynhelir eleni ym Mae Caerdydd. Yn ogystal dewiswyd Guto yn aelod o Gwmni Theatr Ieuenctid Cymru – llongyfarchiadau mawr iddo. Ymhyfrydwn yn llwyddiant ein hieuenctid a dymunidau gorau iddynt. I gloi noson hynod o lwyddiannus dymunwyd yn dda i bawb o'r Adran a'r Aelwyd a fydd yn perfformio yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mae Caerdydd.

Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad dwysaf â phawb sydd wedi colli anwyliaid yn ystod y mis.

Gyrfa Chwist – Cartref Hafan Deg

Nos Fercher y 29ain o Ebrill cynhaliwyd Gyrfa Chwist yng Nghartref Hafan Deg gyda Mr Iorwerth Evans, Llangybi yn arwain. Enillwyr fel a ganlyn: - Dynion: 1af Iorwerth Evans, Llangybi; 2ail Mary Jones, Stryd y Bont, Llambed; 3ydd Gwendoline Jones, Llanybydder. Merched: 1af Gwenda Davies, Bro Henllys, Felinfach; 2ail Magw Evans, Pontshaen; 3ydd Eirwen Thomas, Talgarreg. Bwrw Allan: Magw Evans a Peggy Davies, Bro Henllys, Felinfach; ail, Ray Jenkins, Llanybydder a Eirwen Thomas.

Ar Nos Fercher y 13eg o Fis Mai cynhaliwyd Gyrfa Chwist arall gyda Mr Iorweth Evans yn arwain eto. Enillwyr oedd fel a ganlyn – Dynion:- 1af Ray Jenkins, Llanybydder; 2ail Maggie Vaughan, Bro Henllys, Felinfach; 3ydd Gwen Davies, Llanwnnen. Merched:- 1af Ruth Davies, Tregaron; 2ail Ifan Jones, Aberarth; Cydradd 3ydd, Mari Evans, Llanwnnen a Cathrina Davies, Aberaeron; Carden 'miniature':- Dynion Peggi Davies, Bro Henllys, Felinfach; Merched, Ruth Davies, Tregaron. Bwrw allan:– Enillwyr Mai Williams, Tregaron a Gwendoline Davies, Llanybydder; Ail Catherine Morgan, Llambed a Gwen Davies, Llanwnnen. Bydd y Gyrfaoedd Chwist Mis Mehefin ar y 10fed a 24ain. Croeso cynnes i bawb.

Ysgol Ffynnonbedr

Yn ddiweddar bu nifer o blant yr ysgol yn rhedeg yng nghystadleuaeth trawsgwlad cenedlaethol yr Urdd yn Aberystwyth. Braf yw medru nodi fod dwy chwaer sef Caitlin a Grace Page wedi dod yn bedwerydd yn eu rasys perthnasol. Maen nhw'n amlwg yn dilyn eu mham!

Llongyfarchiadau hefyd i dîm rygbi 10 bob ochr yr ysgol a ddaeth i'r rownd derfynol cenedlaethol a gynhaliwyd yn Llanelli. Da iawn - Louie Andreas, James Edwards, Red Gale, Rhys Jones, Reuben Beddoe, Osian Morgan, Cory Jenkins, Gareth Jones, Gavin Evans, Scott Davies a Monty Jenkins.

Enillodd Lucy Hill gystadleuaeth goginio i lunio bwydlen. Cafodd lyfr i'w hunan a gwerth £900 o gyfarpar coginio i'r ysgol - llongyfarchiadau.

Da yw nodi i dri thîm o'r ysgol gystadlu yng Nghwis Llyfrau'r Sir ac i Sara Evans, Leanne Jones, Caitlin Page a Rhys Jones ddod yn drydydd. Mae'n glod i chi gyd.

Rydym yn falch iawn o dderbyn nifer o grantiau i hybu gwaith gwahanol yn yr ysgol. Derbyniwyd dwy grant oddiwrth 'Cynnal Ceredigion' un am £2,000 i greu cwt to gwellt, a £800 i lunio mosaic i'w roi yn arwydd tu allan i'r ysgol. Derbyniwyd grant ychwanegol hefyd o £3,850 o'r Loteri i ddatblygu'r ardd wyllt ymhellach.

Er gwybodaeth mae gwefan newydd yr ysgol ar y we yn awr. Dyma'r cyfeiriad os oes gennych ddiddordeb - http://www.ffynnonbedr.ceredigion.sch.uk/

Janet, llywydd ynghyd a'r trysoryddion Irene a Pat yn arddangos y bras a gyflwynwyd i Esyllt Jones, llywydd Cenedlaethol Merched y Wawr ar gyfer ymgyrch Casglu Bras i elusen Oxfam.

Dwy chwaer, Grace a Caitlin Page, disgyblion yn Ysgol Ffynnonbedr, a fu'n cystadlu yn Rasys Trawsgwlad Cenedlaethol yr Urdd a gynhaliwyd yn Aberystwyth yn ddiweddar. Daeth y ddwy yn bedwerydd yn eu rasys perthnasol.

Trefnodd CIP, sef cylchgrawn yr Urdd, gystadleuaeth ysgrifennu llythyr, a chyhoeddwyd mae'r enillydd oedd Harri Miller, Disgybl Blwyddyn 4 yn Ysgol Ffynnonbedr, a derbyniodd wobr o £40 iddo'i hun a £100 i'r Ysgol.

Babi newydd

Llongyfarchiadau i Geraint a Meleri Jones, Islwyn, Stryd y Bont ar enedigaeth mab newydd, Ifan Elfed.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Lilian a Gareth, Tŷ'r Banc, Llambed ar enedigaeth merch fach Beca Elan ar fore dydd Sadwrn, Mai 23ain. Dymuniadau gorau i chwi fel teulu.

Bedyddwyr

Cynhaliwyd Cymanfa Ganu Bedyddwyr Caio a Llambed yng Nghaersalem Parcyrhos ar Sul 17 Mai. Er gwaetha'r tywydd gaeafol cafwyd diwrnod llwyddiannus a phleserus iawn. Cymerwyd at y rhannau arweiniol yn oedfa y plant gan Cerys a Steffan Roberts a Hannah Timmis, Caersalem. Yr arweinydd gwadd oedd Elonwy Davies o Lanybydder sydd fel y gwyr pawb yn wraig weithgar iawn yn ei chymuned. Mwynhawyd gwledd ardderchog yng nghwmni'r plant, gyda phob un ohonynt yn rhoi o'u gorau glas ac yn ymateb

Llanbedr Pont Steffan

yn rhagorol i gyfarwyddiadu'r arweinydd. Bu'r plant yn darllen yr emynau gan wneud hynny yn raenus a deallus iawn – ambell un ohonynt ond yn 5 oed. Llywyddwyd gan Tegwyn Lloyd, Salem Caio a phleser oedd gwrando ar unawd hyfryd gan Deian Thomas, Fethel Cwm Pedol. Tro'r oedolion oedd canu mawl i Dduw yn yr hwyr a llywyddwyd gan y Parch Jill Tomos. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan Sian Roberts-Jones a Delyth Timmis. Er nad oedd rhif y cantorion yn fawr iawn cafwyd canu gorfoleddus gyda'r arweinydd a'r cantorion ar eu gorau. Talodd y llywydd ddiolch i Elonwy am ei gwasanaeth clodwiw yn ystod y dydd, i bawb oedd wedi cymryd rhan, i Llinos Jones am ei gwasanaeth wrth yr organ ac i Janet Evans am ei chynorthwyo yn yr hwyr; i'r cantorion o'r eglwysi lleol am eu cymorth, ac i swyddogion ac aelodau Caersalem am eu croeso ac am drefnu lluniaeth ardderchog i bawb. Talodd deyrnged hefyd i Emlyn Davies am ei waith diflino yn arwain y rihyrsals eleni eto, i Janet am baratoi'r plant ac i bawb oedd wedi dod ynghyd.Talodd yr arweinydd ei diolch diffuant hithau am y fraint o gael arwian y Gymanfa a datganodd ei gwerthfawrogiad cynnes i'r plant a'r oedolion am eu canu bendigedig. Traddodwyd y fendith gan y Parch Jill Tomos.

Merched Y Wawr

Dechreuwyd cyfarfod Mai trwy ganu cân y Mudiad a Elma yn cyfeilio. Dosbarthwyd papurau pleidleisio ar gyfer ethol pwyllgor newydd y tymor nesaf. Llongyfarchodd Janet ein llywydd Ann a Gwynfor Lewis am ddod yn fam-gu a thad-cu i Megan Dafydd , a hefyd Aerwen Griffiths am lywyddu yng Nghymanfa'r Annibynwyr yn Soar. Darllenwyd y cofnodion a'u cael yn gywir. Llongyfarchwyd Dilys Godfrey am ddod yn ail yn y gystadleuaeth clytwaith yn yr Wyl Fai. Bydd y trip ar Fehefin 8fed yn dechrau am 1.45 yp o'r Rookery i Henllan a Llandudoch. Soniodd y llywydd ei bod wedi mynychu seremoni ym Mharc yr Orsedd, a seremoni sefydlu Maer newydd y dref yn ddiweddar. Canmolodd glerc y cyngor, Eleri Thomas am gyflwyniadau dwyieithog graenus ar y ddau achlysur. Bydd angen paratoi te i'r 'Ifanc o Galon' ar Fehefin 17eg. Bum yn ffodus o gael dwy wraig wadd dalentog i'n cyfarfod blynyddol. Croesawodd Janet yn gyntaf un o'r aelodau sef Dilys Godfrey i ddangos ei gwaith llaw. Mae Dilys wedi ennill gwobrau mewn nifer o gystadleuthau yn arbennig gyda'r mudiad. Dangosodd y gwaith a enillodd yr ail wobr iddi yn yr Wyl Fai eleni. Diolchwyd yn gynnes iddi gan Mair Lewis. Aeth Janet ymlaen i groesawu Esyllt Jones, Llywydd Cenedlaethol y Mudiad i'r cyfarfod. Mae Esyllt Jones yn enedigol o Lannon, Ceredigion. Soniodd am ymgyrch y 'Bras' a fydd yn mynd ymlaen tan fis Awst. Casglwyd miloedd yn barod ac mae'r ymgyrch wedi codi proffil Merched Y Wawr i sylw'r cyhoedd gyda'r ailgylchu yma. I orffen dangosodd i ni gynnyrch llaw arbennig o gelfydd o'i gwaith gan ganolbwyntio ar amrywiaeth o glytwaith. Cymharodd y Mudiad i gwilt wedi ei greu o glytwaith – clytwaith o bwyllgorau, gwyliau a diwrnodau gyda'r mudiad, clytwaith o weithgareddau, cymdeithasu a gwneud cyfeillion, a chlytwaith o Gymraeg - sef tafodiaethau ac acenion amrywiol. Mwynhawyd ei hymweliad yn fawr iawn a diolchodd Mair Lewis yn gynnes iddi am ei phresenoldeb. Yn dilyn cais oddi wrth gangen yr Urdd lleol ac Eisteddfod Pantyfedwen, penderfynwyd cyfrannu hanner can punt yr un. Diolch i Derek Evans a Ben Lake am gyfri'r pleidleisiau – ceir manylion y pwyllgor newydd yn y rhifyn nesaf. Enillydd y raffl oedd Llinos Jones, a Dilys Godfrey oedd enillydd y gystadleuaeth 'Carden Cyfarch'. Paratowyd y te gan Ann Evans, Mair Pentre Bach a Noeleen.

.

Gefeillio gyda thref yn Ffrainc.

Teithiodd trideg un o actorion o St. Germaine Sur Moine, Loire, i Lambed fel rhan o'r ymgyrch gefeillio. Derbyniasant groeso arbennig yng Ngholeg Dewi Sant Drindod, a chael blasu te Cymreig go iawn. Cawsant lety dros gyfnod eu arhosiad gan drigolion y dre a'r cyffiniau.

Y bore canlynnol bu'r actorion yn perfformio yn y Llew Du; cafwyd sgets ar thema 'trafferthion cyfathrebu â'n gilydd', ond `roedd ystumiau'r dwylo a'r llygaid yn cyfleu'r cyfan. Yn ystod y prynhawn bu'r Maer y Cyng. Selwyn Walters yn eu tywys o gwmpas 'Taith Treftadaeth y Dref', gan roi hanes Llambed i'r ymwelwyr. Cafwyd swper yn y Castle Green twy garedigrwydd Mavis a Brian.

Drannoeth cafwyd cyfle i deithio i Aberaeron a cherdded ar hyd yr arfordir hyd at Aberarth, cyn dychwelyd i Lambed a chael gwledd fawr yn Neuadd yr Eglwys. Trefnwyd hyn gan Dorothy Williams, a mwynhawyd pryd blasus gyda gwin o Ffrainc. Cafwyd adloniant gan yr ymwelwyr a ffrindiau lleol.

Diolch i bawb am gynorthwyo yn y trefniadau, yn enwedig Carol yr ysgrifenyddes. Trueni fod Iori, y Cadeirydd wedi colli'r dathlu oherwydd salwch, ac ef wedi bod ynghlwm wrth y paratoadau ers misoedd. Gwellhad buan iddo. Roedd hwn yn gyfle amrhisiadwy i gymdeithasu gyda ffrindiau newydd. Au revoir am nawr. Phillip Lodwick.

Maer a Maeres newydd Llambed, y Cynghorydd Selwyn a Judith Walters.



Llwyddiant i ddisgyblion Ysgol Ffynnonbedr. Enillodd Helen Casiday y wobr gyntaf a Jordan Evans yr ail wobr am ysgrifennu rhyddiaith i ddysgwyr yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

Eisteddfod yr Urdd

Wrth i Clonc fynd i'r wasg daeth y newyddion am lwyddiant y canlynol yn yr eisteddfod yng Nghaerdydd: Meirion Thomas, Tremallt yn drydydd ar yr unawd ac Aelwyd Llambed yn drydydd yn y grŵp llefaru. Grŵp Llefaru – 1af Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan, Parti Bechgyn – 3ydd Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan, Gwaith Lluniadu 2D Bl. 7 ac 8 – 3ydd Dewi Uridge, Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan, Graffeg Cyfrifiadurol Bl. 9 – 1af Carwyn Davies, Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan, Rhyddiaith Bl. 4 ac iau (D) – 1af Helen Cassiday, Ysgol Gynradd Ffynnonbedr, 2ail Jordan Evans, Ysgol Gynradd Ffynnonbedr, Barddoniaeth dan 19 oed – 3ydd Elin Jones, Ysgol Gyfun, Dawns Cyfrwng Cymysg Bl 7 a dan 19 oed - 3ydd Ysgol Gyfun, Llefaru Unigol Bl 10 a dan 19 oed – 3ydd Hedydd Davies, Aelwyd Llanbedr Pont Steffan, Llongyfarchiadau gwresog i chi i gyd..

Dilys yn arddangos ei gwaith llaw amrywiol yng nghyfarfod Merched Y Wawr.

Cydnabyddir cefnogaeth

BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD

www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

GORSAF BRAWF MOT

GAREJ BRONDEIFI

Heol Llanfair
Llambed
SA48 8JX

PEIRIANT GOLCHI CEIR POETH
AR AGOR
7 DIWRNOD YR WYTHNOS

Ffôn: 01570 422305
Ffôn Symudol:07974 422305

Dewch i ein safle newydd am wasanaeth prydlon a chyfeillgar

* Gwasanaethu ac Atgyweirio* Prisiau Cystadleuol am Deiars *
* Egsôsts * Batris * Brêcs * Ceir Newydd ac Ail-law ar werth *

Llanfair Clydogau

Sefydliad y Merched

Rali Haf Sefydliad y Merched 2009. Enillydd yr adran arlunio oedd Elaine Coombs o Lanfair Clydogau gyda'i darlun 'Craig, Môr a Thywod.'

Cellan

Llwyddiant Ysgubol

Llongyfarchiadau i Anwen Butten a thîm bowlio Merched Cymru ar eu buddigoliaeth yn yr 'Atlantic Championship' yn Ne Affrica yn ddiweddar. Anwen yn ennill dwy fedal aur ac un efydd.

Danfonodd Cymru ddeg o aelodau (5 dyn a 5 merch) i gystadlu yn erbyn pymtheg gwlad arall mewn gornest yn Johannesburg. Dyma fel y llwyddodd y merched –

Unigol – Arian; Deuawdau Efydd (Anwen a Hannah Smith o Gaerfyrddin); Triawdau – Aur; Pedwarawdau – Aur (Anwen yn un o'r pedair), merched Cymru yn cael y fedal Aur am ddod yn gyntaf yn y gystadleuaeth.

Llwyddodd y bechgyn i ennill 3 medal efydd ac un Aur.

Mae Clonc yn falch o gael y cyfle i longyfarch a rhoi cyhoeddusrwydd i'r tîm bowlio. Trueni fod y cyfryngau torfol wedi methu!!

Wyres

Llongyfarchiadau mawr i Gerwyn a Frances, Maesyderi ar ddod yn famgu a thadcu i Beca Elan sef merch fach i Lilian a Gareth, Tŷ'r Banc, Llanbed. Pob hwyl i'r teulu bach.

Eisteddfod yr Urdd 2010

Mae edrych ymlaen yn fawr yn y pentre am Sul Mehefin 21ain, pryd y bydd pentrefi'r cylch (dalgylch y Cyng. Odwyn Davies) yn codi arian tuag at Eisteddfod yr Urdd 2010. Cynhelir y gweithgareddau yn Neuadd Llanfair; Hufen a Mefus o 4.30 – 6 ac wedyn yn dilyn, Côr Cwmann a'r cylch, o dan arweiniad Mrs Elonwy Davies. Mynediad yn £3. Plant £1. Dewch i fwynhau.

Rhifyn mis Gorffennaf
Yn y Siopau
Gorffennaf 2ail
Erthyglau i law erbyn
Mehefin 18fed
Newyddion i law erbyn
Mehefin 22ain

Mae CLONC ar werth yn:
Awen Teifi, Aberteifi
Caxton, Llambed
Compton, Llanybydder
Co-op, Llambed
Eryl Jones, Llambed
Garej Checkpoint, Harford
Garej LSS, Llandeilo
Glennydd, Cwrtnewydd
Gwasg Gomer, Llandysul
Inc, Aberystwyth
J H Williams, Llambed
Lomax, Llambed
Medical Hall, Tregaron
Siop y Bont, Llanybydder
Aeron Booksellers, Aberaeron
Siop Llangyi
Siop y Cennen, Rhydaman
Spar, Llanybydder
Swyddfa Bost, Felinfach
Swyddfa Bost, Llanllwni
Swyddfa Bost, Llanwnnen
Swyddfa Bost, Pontsian
Tafarn Cefnhafod, Gorsgoch
Tafarn Glanyrafon, Talgarreg
t-hwnt, Caerfyrddin
W D Lewis a'i Fab Pumsaint

Ffarmers

Uned Gofal y Galon, Ysbyty Treforys

Soniwyd yn y rhifyn diwethaf o Clonc i Mrs Gwenda Thomas, Gwynnant ddathlu ei phenblwydd yn 90 ym mis Ebrill. 'Roedd wedi gwneud yn glir nad oedd eisiau anrhegion penblwydd, ond 'roedd aelodau'r teulu, a llu o gyfeillion wedi cyfrannu yn hael tuag at gronfa i ddathlu'r penblwydd arbennig yma, a derbyniwyd £1,600 mewn rhoddion. Ei dymuniad oedd cyflwyno'r arian yma i Uned Gofal y Galon yn Ysbyty Treforys i ddarparu monitors cludadwy ar gyfer cleifion cardiaidd. Yn y llun, gwelir Mrs Thomas yn cyflwyno siec i Sister Judi Terry a Sister Alison Jones. Dymuna Mrs Thomas ddiolch i bawb a wnaeth gyfrannu tuag at y gronfa, ac wrth hynny sicrhau swm anrhydeddus i'w gyflwyno i'r achos teilwng yma.

Cyfarchion

Estynnwn ein dymuniadau gorau at Margaret Tooby, Maesisaf; Colin Baldwin, Wernfeudwy a Ray Davies, Peronne – y tri ohonynt wedi derbyn triniaeth law-feddygol yn ystod yr wythnosau diwethaf. Mae John Rhys Evans, Glasdir yn dal yn Ysbyty Llandochau, ac mae'n dda gweld Mrs May Roberts, Berthglyd adre yn dilyn cyfnod yn Ysbyty Glangwili. Pob hwyl iddynt oll.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Dylan Lewis, Esgaircorn a Gethin Mathias, Tynwern ar ennill y gystadleuaeth gneifio, adran iau, yn rali Ffermwyr Ifanc Sir Gâr ym mis Mai; ac i Ian O'Connor, Buarth yr Oen a enillodd yr adran hŷn yn cneifio. Bydd y ddau yn cynrychioli'r Sir yn y gystadleuaeth gneifio yn y Sioe Frenhinol yn Llanelwedd ym mis Gorffennaf. Mae Ian hefyd yn aelod o dîm y Sir a fydd yn cystadlu yn yr adran ffensio. Un arall i brofi llwyddiant yw Eirwyn Richards, Cwmcelynen a enillodd gwobr stocmon iau y Sir, ac a fydd yn rhan o dîm Cymru ar gyfer cystadleuaeth stocmon y flwyddyn yn Stoneleigh ym mis Medi – pob hwyl iddynt.

Carnifal a Mabolgampau Bro Fana

Bydd y Carnifal a'r Mabolgampau blynyddol yn cael eu cynnal dydd Sadwrn, Awst yr 8fed ar Barc Bro Fana. Ceir manylion pellach yn y rhifyn nesaf o'r papur bro, neu gallwch gysylltu ag Ethel Davies ar 01558 650507.

Ffair Grefftau

Mae'r Clwb Crefftau – 'CLOWNS' - wedi cwrdd yn gyson yn Neuadd Bro Fana ers blynyddoedd bellach, ac ar Sadwrn, y 25ain o Orffennaf, byddant yn cynnal Ffair Grefftau yn y Neuadd. Cyfle i chi weld cynnyrch yr aelodau, a phrynu o'r amrywiaeth o eitemau fydd ar werth.

Cymanfa Bedyddwyr Cylch Caio a Llambed Cynhaliwyd y Gymanfa Flynyddol yng Nghapel Caersalem, Parcyrhos o dan arweiniad Mrs Elonwy Davies, Llanybydder. Llywydd oedfa'r plant yn y prynhawn oedd Tegwyn Lloyd o Salem Caio. Cafwyd eitem yn yr oedfa gan Deian Thomas, a gwnaeth Dafydd ac Alwyn Morgan hefyd gymeryd rhan – y tri ohonynt yn cynrychioli Bethel Cwm Pedol. Cynhelir Cymanfa 2010 yn Salem, Caio.

HYSBYSEBU YN CLONC
"Mae mwy a mwy yn gweld gwerth mewn hysbysebu yn y Papur Bro."
Amcangyfrifir bod tua 3,000 o bobl yn darllen CLONC.
£10.00 am floc bach.
£30.00 am chwarter tudalen.
£50.00 am flwyddyn o flociau bach.
Cysylltwch ag Ysgrifenyddes CLONC am ragor o wybodaeth:
01570 480015 neu ysgrifennydd@clonc.co.uk

Llanwnnen

Ysgol Llanwnnen

Bu 6 o blant yr ysgol lawr yng Ngwersyll yr Urdd yn Llangrannog yn cystadlu yn Nhraws Gwlad y Sir ar ddiwrnod cyntaf mis Mai.

Prynhawn dydd Mercher, 6ed o Fai aeth yr ysgol gyfan draw i Eglwys San Silin yng Nghribyn i Wasanaeth Cymun. Diolch i'r Ficer am ei wasanaeth. Prynhawn dydd Llun, Mai 11eg cynhaliwyd Chwaraeon Potes yr Urdd yn Ysgol Ffynnonbedr. Roedd nifer o dîmau yno yn mwynhau chwarae gêmau. Diolch i Anwen Eleri a Rhydian Jenkins am baratoi'r gêmau.



Aeth yr adran Iau i gwrdd â Dewi Pws yn Ysgol Cribyn yn ystod y mis pan oedd yn siarad am bwysigrwydd darllen. Aeth disgyblion Llanwnnen, Cwrtnewydd, Cribyn a Capel Dewi lawr i Theatr Mwldan, Aberteifi i weld Sioe Rwtsh Ratsh. Braf oedd gweld y cymeriadau. Pawb wedi mwynhau mas draw! Aeth disgyblion Cribyn a Llanwnnen am daith addysgiadol Addysg Grefyddol i Synagog yn Abertawe. Cawsom dwy awr bleserus iawn yn y Synagog a phawb o'r lleiaf i'r hynaf wedi dysgu rhywbeth. Cawsom ein picnic allan ar y traeth yn Abertawe!

Yn ystod y tymor bu'r adran Iau yn derbyn gwersi o'r Beibl gan 'Bible Explorer' a disgyblion Bl. 5 yn derbyn gwersi beicio gan Ryan Jones.

Ar brynhawn olaf y tymor cafodd Sophie Herron ddamwain yn yr ysgol wrth chwarae. Gobeithio erbyn hyn fod dy fraich yn well.

Sefydliad y Merched

Ar brynhawn Gwener y 1af o Fai aethom ar ein gwibdaith flynyddol i'r Ardd Fotaneg yn Llanarthne. Gan ei bod yn brynhawn gwlyb iawn, treuliwyd rhan helaeth o'r amser yn y dôm mawr yn cysgodi rhag y tywydd garw. Wedi cwpanaid o de penderfynwyd fynd ymlaen am Barc Siopa Cross Hands. Ar y ffordd aeth y bws a ni i Siop Fferm Cwmcerrig yng Ngorslas. Siop newydd i'w hon sydd wedi ei sefydlu gan deulu busnes a bu yn gwerthu ffrwythau a llysiau yn lleol ers blynyddoedd. Mae'r cynnyrch i gyd mor lleol ag sy'n bosib. a chanran uchel o'u cig wedi ei gynhyrchu ar fferm y teulu. Mae yna hefyd fwyty mawr yn cynnig amrywiaeth o fwyd twym a oer. Ymlaen wedyn i dreulio ryw awr yn Leekes, Cross Hands cyn mynd am swper i Half Way, Nantgaredig. Wedi gwledd o swper, diolchodd y llywydd Mrs Gwen Davies i Mrs Mary Davies a Mrs Ceinwen Roach am wneud y trefniadau.

Noson i drafod penderfyniad ar gyfer y Pwyllgor Cenedlaethol oedd gennym ym mis Mai. Gofid am fod rhif y Wennynen Fêl yn y wlad yn gostwng yn gyflym oedd y mater dan sylw, a bu llawer o drafod gyda Mrs Ann Jones, Llanddewi Brefi yn ein harwain yn y drafodaeth. Diolchwyd yn gynnes a phwrpasol i Mrs Jones gan Mrs Mary Davies. Enillydd cystadleuaeth y mis am drefniant bychan o flodau oedd Mrs Avril Jones.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â Susan a Siriol Evans, Gwesty'r Grannell ar golli ei brawd yn ddiweddar.

Taenwyd tristwch mawr dros bentref Llanwnnen pan ddaeth y newydd trist am farwolaeth Mrs Marina Davies, Saron, Bro Grannell ar fore Sul, Mai 17eg. Cydymdeimlir yn ddwys â'i phriod Moldive, a'u merch Eirwen a'r teulu oll yn eu profedigaeth.

Cydymdeimlir hefyd, yn ddwys â Catrin Jarman a'r teulu, Araul yn eu profedigaeth o golli modryb annwyl yn Aberystwyth yn ddiweddar.

Pwyllgor Lles

Ar nos Fercher y 6ed o fis Mai bu cyfarfod o'r Pwyllgor Lles gyda'r Cyng Haydn Richards yn y gadair. Cyfeiriwyd ein bod wedi derbyn rhoddion ariannol wrth bwyllgor Adloniant y Pentref, ac wrth Sally Jones o Siop y Pentref o ganlyniad i wahanol ddigwyddiadau yn ystod y flwyddyn. Diolchwyd iddynt am eu caredigrwydd. Penderfynwyd ar wibdaith yr haf sef mynd i Gerddi Aberglasni ac i Trostre, Llanelli a'r cyffiniau ar ddydd Iau, yr 18fed o Fehefin, gyda'r bws yn gadael Llanwnnen am 8:45y.b. a Llambed am 9:00y.b. Yr enwau i Mr Gomer Lewis ar 01570 480252 neu Mrs Gwen Davies ar 01570 481152. Croeso cynnes i bawb.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Luned Mair, Pen-y-nant ar ennill 'Tlws y Llenor Ifanc' yn Eisteddfod Maenclochog yn ddiweddar. Dymuniadau gorau i ti i'r dyfodol.

Cyngor Cymuned

Y cyn-cadeirydd, y Cyng. Mr Richard Jarman, Araul yn trosglwyddo Cadwyn y Cadeirydd am y flwyddyn nesaf i'r Cyng Emyr Lloyd, Y Glyn ym Mhwyllgor Blynyddol Cyngor Cymuned Llanwnnen a gynhaliwyd ym mis Mai.

Llangybi a Betws

Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad dwys y fro i Mrs Betty Lockyer, Bro Deri yn ei phrofedigaeth lem ar farwolaeth ei chwaer yn ddiweddar. Cydymdeimlir yn ddwys â holl aelodau teuluol a ffrindiau.

Merched y Wawr y Dderi

Cyfarfu yr aelodau ar Ebrill 20fed, a chroesawyd pawb gan y llywydd Lettie Vaughan. Y gŵr gwadd oedd John Meredith ac fe gafwyd noson gofiadwy yn ei gwmni diddan. Cafwyd hanes ei fagwraeth yn y Bont ac fel y bu iddo newid gyrfaoedd, a dewis gwahanol lwybr fwy nag unwaith cyn iddo gael ei ethol i swydd bwysig fel gohebydd i'r cyfryngau. Bu iddo'r fraint o gyfarfod nifer o enwogion a theithio yn eang. Rhoddwyd pleidlais wresog o ddiolch iddo am noson fendigedig gan Mary Jones. Rhoddwyd y raffl gan Lettie Vaughan a Mary Jones ac fe'i henillwyd gan y gŵr gwadd a Lettie Vaughan!! I ddiweddu'r cyfarfod cawsom de a bisgedi wedi eu rhoi gan Mary Jones a Lettie Vaughan. Bydd ein cyfarfod nesaf yn Ysgol Ffynnonbedr am 7y.h.

Hamdden

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y llywydd Dilys Godfrey. Ein gwraig wâdd oedd Alison Harwood – gwraig sydd yn dioddef o ddiffyg clyw. Cawsom brynhawn addysgiadol a diddorol iawn yn ei chwmni. Bu'n sôn am ei gwaith gyda'r byddar. Daeth a llawer o offer ganddi ac esboniodd fel yr oeddynt yn gweithio. Mae'r teclynnau yma, fel ffôn arbennig, cloc larwm, cloch drws a phethau eraill yn medru gwneud bywyd y byddar yn haws. Am ragor o wybodaeth ffoniwch 0808 808 0123, neu ysgrifennwch at RNID, 19 – 23 Featherstone St, Llundain. EC1Y 8SL. Enillwyd y raffl gan Rowena Williams, Dilys Godfrey, Joan James, Morina Davies ac Alison Harwood. Bydd y cyfarfod nesaf ar Fehefin 5ed pa fydd y gangen yn ymweld â Chorris. Pris y trip fydd £10 a £10 arall am swper yn Hendrewen. Enwau i Mrs Llinos Jones mor fuan a phosib.

Cydymdeimlo

Syfrdanwyd ardal eang pan glywsom y newyddion brawychus ac annisgwyl am huno Dr Katherine Jenkins, Hengoed. Roedd yn wraig eithriadol o brysur gyda'i gwaith yn y Cynulliad, a nifer o ddiddordebau, ac yn aelod o lawer cymdeithas ac yn bregethwraig lleyg. Cydymdeimlir yn ddwys â'i phriod Allan yn ei brofedigaeth lem o golli cymar, ac â chysylltiadau teuluol eraill, a ffrindiau.

Cadwyn Cyfrinachau

Enw: **Manon Haf Richards**
Oed: 26
Pentref: Llanwnnen
Gwaith: Arbenigwraig Therapi Iaith a Lleferydd.
Teulu: Haydn (Dad) Mary (Mam).

Unrhyw hoff atgof plentyndod.
Gweld y fan hufen iâ yn cyrraedd Cellan bob p'nawn Sul. Bûm yn byw yn Cellan tan fy mod bron yn saith oed.

Hoff raglen deledu pan oeddet yn blentyn.
Ffalabalam.

Y peth pwysicaf a ddysgest yn blentyn.
I fod yn gwrtais.

Pan oeddet yn blentyn, beth oeddet eisiau bod ar ôl tyfu?
Athrawes neu nyrs.

Pryd a ble wyt ti mwyaf hapus?
Adref ar nos Wener gyda'r penwythnos o fy mlaen.

Pwy yw dy arwyr?
Pobl gyffredin sy'n sefyll dros faterion lleiafrifol.

Y peth gorau am yr ardal hon?
Y gymdeithas glos a digon o ffrindiau yn barod i helpu pawb. Mae'r cyfle i siarad Cymraeg yn ddyddiol hefyd yn beth braf iawn.

Y peth gwaethaf am yr ardal hon?
Prinder trafnidiaeth gyhoeddus.

Pa mor wyrdd wyt ti?
Rwy'n ail-gylchu popeth fedra i ond mae lle i wella.

Pa iaith wyt ti'n defnyddio gyntaf?
Cymraeg.

Pa fath o berson sy'n mynd o dan dy groen?
Pobl ddauwynebog, barus a diegwyddor.

Beth sy'n codi ofn arnat?
Bod yn unig.

Sut fyddet ti'n gwario £10,000 mewn awr?
Prynu 'grand piano'.

Am beth wyt ti'n breuddwydio?
Medru prynu tŷ a chael mwy o amser i ymlacio.

Unrhyw ofergoelion?
Rwy'n ceisio osgoi cerdded o dan ysgolion a dwi ddim yn or-hoff o Ddydd Gwener y 13eg chwaith.

Beth oedd yr eiliad balchaf i ti'n broffesiynol?
Cael swydd barhaol i gael gweithio yn fy nghynhefin.

Ac yn bersonol?
Cael fy newis yn ddiweddar yn Frenhines C.Ff.I. Ceredigion am y flwyddyn sydd i ddod.

Beth yw dy gyfrinach i gadw'n heini?
Rwy'n ceisio cerdded tipyn ond byddwn yn hoffi gwneud mwy.

Beth yw'r cyngor gorau a roddwyd i ti?
Os yw e'n werth i'w wneud mae'n werth i'w wneud yn iawn, a *'it's never crowded on the extra mile'*.

Disgrifia dy hun mewn tri gair.
Cyfeillgar, cydwybodol, prysur.

Pa gar wyt ti'n gyrru?
VW Golf.

Beth yw dy hoff air?
Fabulous.

Beth yw'r cludfwyd o'th ddewis?
Indian.

Beth wyt ti'n ei ddarllen?
Amrywiaeth o nofelau a hunangofiannau. Rwy'n hoff iawn o lyfrau Sonia Edwards, Caryl Lewis a Cecelia Ahern.

Beth fyddet ti'n achub petai'r tŷ'n llosgi'n ulw?
Ffôn, lluniau a'r teulu wrth gwrs.

Beth yw dy hoff arogl?
Porfa newydd ei dorri ac arogl bwyd.

Sut wyt ti'n ymlacio?
Gwrando ar gerddoriaeth, chwarae'r piano a darllen. Mae gwydred o win coch bob amser yn helpu hefyd!

Sawl ffrind sydd gennyt ti ar facebook?
Heb ymuno â facebook...mae'n well gyda fi drio cadw mewn cysylltiad â phobl wyneb yn wyneb.

Sawl tecst y dydd wyt ti'n hala?
Gormod.

Pa ran o dy gorff yw dy hoff ran?
Llygaid.

Oes yna rywbeth na elli di ei wneud y byddet ti'n hoffi ei gyflawni'n dda?
Nofio.

Beth sy'n rhoi egni i ti?
Siocled a chwsg.

Beth sy'n rhoi ysbrydoliaeth i ti?
Gweld eraill yn llwyddo ar ôl ymroi.

Pa beth wyt ti'n ei drysori fwyaf?
Iechyd.

Pwy sy'n ddylanwad arnat ti?
Fy rhieni.

Y gwyliau gorau?
Ymweld â Groeg i briodas un o fy ffrindiau coleg, a'r daith gyda'r ffermwyr ifanc i Ganada.

Arferion gwael?
Methu dweud 'na' yn ddigon aml.

Beth yw'r peth diwethaf wyt ti'n 'neud cyn mynd i'r gwely?
Diffodd y golau.

Ble fyddi di mewn deng mlynedd?
Gobeithio dal i fyw yng Ngheredigion.

Testun Cyfrinachau'r rhifyn nesaf:
Enw: **Llyr Davies**, Llanybydder.

Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob bocs yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw
Cyfeiriad
Cod post
Rhif Ffôn

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

3					2	8		
	9		5			7	1	
	4					9		
			2				9	3
		2		5		1		
1	3				8			
		7					5	
	5	8			9		7	
		3	4					8

Atebiob Swdocw mis Mai
Llongyfarchiadau i **Jean Griffiths**, Fronddu, Cwrtnewydd a diolch i bawb arall am gystadlu: Avril Williams, Y Fedw, Cwmann, Eurwyn Davies, Heol-y-Gaer, Llanybydder, Bethan Williams, Heol-y-Gaer, Llanybydder, Beca Creamer, Brooklands, Cwmann, Glenys Davies, Gelli Aur, Llanybydder, Iona Warmington, Llandaf, Caerdydd a P. Buckley, Bryntegwel, Llambed.

3	6	8	7	4	9	5	1	2
4	7	5	8	2	1	9	3	6
9	2	1	5	6	3	4	8	7
6	4	7	1	3	5	2	9	8
8	9	2	6	7	4	3	5	1
1	5	3	2	9	8	7	6	4
7	1	4	9	5	6	8	2	3
2	8	9	3	1	7	6	4	5
5	3	6	4	8	2	1	7	9

Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan

Llongyfarchiadau i Elin Jones o flwyddyn 13 ar ennill Cadair Eisteddfod Capel-y-Groes ac hefyd Tlws Llên yr Ifanc, gyda chlod mawr, yn Eisteddfod Llandudoch.

Llongyfarchiadau hefyd i Luned Mair ar ennill Tlws Llenyddiaeth yr Ifanc yn Eisteddfod Maenclochog yn ddiweddar. Mae gan y ddwy allu creadigol arbennig – daliwch ati i gyfansoddi ferched.

Cyflwynwyd siec o £1,100 i'r Parch Goronwy Evans a'r Bon. Cyril Davies, ar ran Pwyllgor lleol Llanbed a Llanybydder o Ymchwil Cancr UK gan ein prif swyddogion Elin Jones, Russell Pink, Natalie Moore, Luned Mair, a Shawn Brown. Cyflwynwyd hefyd siec o £500, sef nawdd punt am bunt gan fanc Lloyds, gyda diolch i Mrs Llunos Bowen am ei chymorth. Codwyd yr arian yn 'Snowball' bl 12 a 13, sef eu cinio a dawns Nadolig yn y Plough, Rhosmaen. Cafwyd noson fythgofiadwy lle codwyd swm sylweddol at achos da iawn. Diolch i bawb a gyfrannodd at yr achos teilwng hwn.

Mae 9 Non wedi bod yn brysur eleni yn casglu arian at achos da. Penderfynodd y dosbarth gasglu at 'Habitat for Humanity' eto, sef elusen sy'n codi tai i bobl tlawd Affrica. Bu Daniel, Steffan a Guto yn cynrychioli'r dosbarth drwy werthu briciau am bunt o gwmpas yr ysgol. Casglwyd cyfanswm o £225. Da iawn chi.

Ddydd Sul, Mai 17eg, cymerodd Delor James, Hedydd Thomas, Pat Jones, Shan Cooper, Dianne Evans a Sarah Evans ran yn y 'Race for life' ar y prom yn Aberystwyth, er mwyn codi arian i Ymchwil Cancr. Diolch o galon i ffrindiau a theulu am y nawdd a dderbyniwyd.

Cynllun gwobrwyo lleol yw Gwobr Curiad Calon a ddatblygwyd gan adain Bwyd a Diogelwch Ceredigion yn 2000. Bwriad y cynllun yw cydnabod sefydliadau arlwyo yn y Sir sy'n darparu'r safonau uchaf o ofal cwsmer, sy'n dangos rhagoriaeth ym maes arlwyo ac sy'n cynnig dewisiadau iach. Mae'r wobr yn cydnabod y dewisiadau iach a gynigir i blant ac mae'n gwobrwyo hyfforddiant staff a'r gwaith o hybu dewisiadau iach. Cyn y gellir ystyried sefydliadau am y wobr, mae'n rhaid eu bod wedi ennill Gwobr Hylendid Bwyd Cymru. Fe enillodd y ffreutur wobr arian yn y categori Hylendid Bwyd Cymru yn dilyn un archwiliad dirybudd er mwyn sicrhau bod y safonau angenrheidiol wedi eu cyflawni neu cynnal. Llongyfarchiadau mawr i Linda ac i holl staff y ffreutur ar dderbyn y wobr arbennig yma.

Cafwyd cryn dipyn o sbort a sbri yn Miri Mai a gynhaliwyd ar nos Iau, Ebrill 30ain. Daeth torf niferus i gaeau'r ysgol a chafwyd llawer o hwyl yn mwynhau'r amrywiaeth o weithgareddau. Chwaraewyd nifer o gêmau pêl-droed a llongyfarchiadau i flwyddyn 11 ar ennill y gystadleuaeth ond hefyd i flwyddyn 7 ar gyrraedd y rownd derfynol.

Bu dynion arfog hefyd yn gwneud arddangosfa mewn hen wisgoedd milwrol a chafwyd cyfle i brynu bwyd o'r barbeciw. Bu'n noson ddymunol a llwyddiannus a diolch i'r Gymdeithas Rieni am eu gwaith caled yn trefnu'r digwyddiad.

Cynhaliwyd Taith i'r Gwaith – Cynhadledd Byd Gwaith i ddisgyblion Bl 10 eleni eto. Pwrpas y gynhadledd oedd i godi ymwybyddiaeth y disgyblion o'r gwahanol fathau o swyddi sydd ar gael, edrych ar broblemau iechyd a diogelwch o fewn gwahanol sefydliadau, yn ogystal â datblygu sgiliau, megis gweithio mewn tîm a datrys problemau.

Ar y diwrnod cyntaf cafwyd 'Diwrnod Mentergarwch' o dan arweiniad Diana Lewes-Gale o 'Gyrfa Cymru'. Cafodd y disgyblion lawer o hwyl yn meddwl am logo a slogan ar gynnyrch o'u dewis. Falle welwn ni rhai ohonynt ar 'The Apprentice' rhywbryd yn y dyfodol!

Ymweld â busnesau Abertawe oedd trefniadau Dydd Mercher. Fe ymwelwyd â ffatri Alberto Calver, Stadiwm Liberty, Canolfan hamdden LC2, Amgueddfa Abertawe, Amgueddfa Glannau Abertawe, Theatr y Grand, archfarchnad Tesco, Canolfan arddio Wyevale, gwestai'r Marriot a Village a swyddfeydd Admiral a HSBC.

Cafwyd dau ddiwrnod hwylus a buddiol a diolch i Diana Lewes-Gale a Nia Heneker o 'Gyrfa Cymru' am eu gwaith paratoi ac i'r cwmnioedd am eu croeso.

Hoffai'r ysgol ac yn arbennig yr Adran Saesneg ddiolch yn fawr iawn i'r Gymdeithas Rieni am eu rhodd hael. Y mae'r cyfraniad wedi galluogi'r Adran i brynu 24 o gluniaduron. Mae'r disgyblion wrth eu bodd yn defnyddio'r cluniaduron newydd yn y gwersi ac y mae'n sicr wedi cyfoethogi eu profiadau dysgu. Mae'r disgyblion i gyd yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi eu bod yn ffodus iawn i gael defnydd o'r adnoddau arbennig yma yn y dosbarth.

Llongyfarchiadau gwresog i Mererid Rees 9G am ei llwyddiant ysgubol yng nghystadleuaeth 'Dawnstastic' a ddarlledir ar S4C. Mae Mererid yn ddawnswraig o fri a bu'n cystadlu gyda dawnswyr eraill o Gymru gyfan. Bu'n llwyddiannus mewn nifer o rowndiau ac fe gyrhaeddodd y rownd derfynol yng Nghanolfan yr Urdd ym Mae Caerdydd. Roedd Mererid ymhlith wyth o ddawnswyr i ennill y brif wobr, sef cael cystadlu yng Ngŵyl ddawnsio gwerin a gynhaliwyd ar ynys Majorca yn ystod gwyliau'r Pasg. Yno, profodd y criw talentog lwyddiant pellach wrth ennill eu categori nhw yn y gystadleuaeth. Ymhyfrydwn yn fawr yn llwyddiant Mererid a dymunwn y gorau iddi yn y dyfodol gyda'r dawnsio.

Llongyfarchiadau i'r disgyblion canlynol ar eu llwyddiant yn athletau'r Sir:- Blwyddyn 7 - Carys Baker 100m a 200m 1af, Rhian Evans Naid Uchel 1af, Cory Lloyd 100m 1af, Clwydi 2ail, Dorian Davies Pwysau 3ydd, Rhys Cadogan Gwaywffon 3ydd. Blwyddyn 8 - Rhian Jones 800m a 1500m 2ail, Donna Geddes Clwydi a Naid Uchel 3ydd, Tracey Ritchie Naid Hir 2ail, Kiri Douglas Gwaywffon 3ydd, Lauren Jones Disgen 3ydd, Ryan Bennett Clwydi 3ydd, Steffan Thomas Naid Hir 3ydd, Jack Parry Disgen 2ail Pwysau 3ydd. Blwyddyn 9 - Sioned Douglas 800m 1af 200m 2ail, Katy Jones Naid Uchel 2ail, Sioned Davies Pwysau 3ydd, Meirion Evans 800m a Clwydi 3ydd, Christy Gale Gwaywffon 2ail. Blwyddyn 10 – Jodie Thomas 200m 2ail, Carwen Richards Naid Uchel a Naid Dripplyg 2ail, Lisa Thomas pwysau 3ydd, Kyle Ward 100m a 200m 2ail, Adam Jones Naid Hir 3ydd.

O'r Cynulliad gan Elin Jones AC

O'r Cynulliad

Yn ystod mis Mai roedd y Cynulliad Cenedlaethol yn dathlu deg mlynedd ers iddo gael ei sefydlu. Roedd yr achlysur hefyd yn cofnodi fy mod wedi cael y fraint o gynrychioli trigolion Ceredigion fel Aelod Cynulliad yr ardal ers deg mlynedd. Ers 1999, mae penderfyniadau mewn meysydd megis iechyd, addysg ac amaethyddiaeth yn cael eu gwneud yng Nghymru ac rwy'n falch iawn ein bod ni yn Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i ddatblygu polisïau sy'n rhoi anghenion pobl Ceredigion a Chymru yn gyntaf.

Yn ogystal â'r Cynulliad, roedd Marchnad Ffermwyr Aberystwyth hefyd yn dathlu degawd ers iddi gael ei sefydlu yn ystod mis Mawrth ac fe ymunais â'r trefnwyr ar ymweliad â'r farchnad yn ddiweddar. Mae'n farchnad sydd wedi tyfu dros y blynyddoedd diwethaf ac wedi ysgogi marchnadoedd cyffelyb i sefydlu mewn nifer o drefi eraill Ceredigion. Rwy'n falch gweld bod ein Marchnadoedd Ffermwyr yn parhau i fynd o nerth i nerth ac rwy'n sicr bod pobl yn falch iawn o gael y cyfle i brynu bwydydd ffres a lleol yn syth o'r cynhyrchwyr.

Ymwelais ag Ysgol Gynradd Mydroilyn yn ddiweddar i gwrdd â'r staff a'r disgyblion. Mae'r ysgol yn un o nifer yng Ngheredigion sydd wedi derbyn canlyniadau da yn dilyn arolygon yn ystod y misoedd diwethaf. Roedd hi'n braf iawn i gael cwrdd â'r disgyblion ac esbonio fy ngwaith fel Aelod Cynulliad yr ardal iddynt.

Yn olaf, mynychais ddathliadau aduniad Ysgol Gynradd Cwmystwyth yn ddiweddar. Er i'r ysgol gau bron i hanner canrif yn ôl, roedd nifer o'r cyn disgyblion wedi dychwelyd i'r ardal ar gyfer yr aduniad er mwyn rhannu atgofion melys. Yn ogystal, fe fynychais yr Eisteddfod flynyddol ym Mhontrhydfendigaid. Roedd y cystadlu o'r safon uchaf unwaith eto eleni gyda nifer fawr o gystadleuwyr lleol yn rhagori.

Ysbryd Alltrodyn gan Eifion Davies

(Deuthum ar draws hwn yn un o ddyddiaduron Highmead o dan y teitl 'The Alltrodyn Ghost' as told by Mr Fredrick Vaughn 20th Feb 1891) Cedwir y ddogfen wreiddiol (Highmead 77) yn y Llyfrgell Genedlaethol.

"Roeddwn yn aros yn Alltrodyn gyda Mr a Mrs Lloyd, fy modryb. Gan fod gennyf ben tost eithaf drwg, euthum i'r gwely yn gynnar gan wybod y byddai Mrs Lloyd (sydd a natur ffein iawn ac yn garedig dros ben) yn gofidio amdanaf. Ceisiais ei sicrhau y buaswn yn iawn wedi mynd i'r gwely, ac erfynais arni beidio a dod i'm hystafell. Cysgwn ar y llawr uchaf mewn gwely pedwar postyn gyda llenni trwm wedi'u cau amdanaf.

Cysgais am ysbaid go dda ond pryd y dihunais, sylweddolais fod y llenni ar waelod y gwely yn cael eu dal ar agor gydag un llaw gan ddynes oedd yn syllu'n graff arnaf. Roedd y tân yn dal i losgi, ac yng ngolau'r tân gwelais fod y person yn gwisgo gŵn llaes wedi'i chlymu am eu chanol. Yn tybio mae Mrs Lloyd oedd hi, dywedais wrthi fy syndod am iddi ddod i'm gweld, a minnau wedi siarsio arni beidio. Ni chefais ateb ond daliai'r person yma i syllu'n graff arnaf. Erbyn hyn roeddwn wedi fy nghynyrfu'n lân, ond yn raddol fe ddechreuodd y ffigwr ddiflannu, y llenni yn syrthio'n ôl. Gwyddwn fod darn o'r llawr wrth y drws yn gwichian wrth gerdded drosto. Disgwyliais yn eiddgar am i'r astell wichian, ond ni chlywais ddim.

Yn rhyfedd iawn, ni gyfaddefodd neb yn y tŷ iddynt ymweld â'm hystafell y noson cynt.

Ar dro arall roeddwn yn dod i lawr y grisiau gyda chanwyllbren ynghyn yn fy llaw, pryd y cefais y teimlad anghyfforddus ofnadwy fod rhywun anweledig yn dringo'r grisiau. Teimlais y peth yma'n nesau, gwasgais fy hun yn erbyn y pared a theimlais rhywbeth yn mynd heibio i mi. Fe sylwais ar fflam y gannwyll yn symud i fyny ac i lawr yn union fel pe buasai person wedi mynd heibio.

Roeddem yn eistedd fel teulu yn yr ystafell gyfarch (Drawing Room) gyda pherson o'r enw Capten Leslie; esgusododd ei hun, a chan gynnau cannwyll, aeth ar ei ffordd i un o'r ystafelloedd ar y llawr uchaf. Ychydig eiliadau yn ddiweddarach daeth yn ôl ar frys i'r ystafell, gyda golwg wyllt ofnadwy arno, y gannwyll wedi diffodd ond y pabwr yn dal i fygu. Holwyd ef am beth oedd wedi digwydd ac adroddodd ei brofiad. Yr union brofiad ag a gefais i. Nid llwfrddyn oedd Capten Leslie, roedd wedi gwasanaethu ei wlad dros y dŵr ac nid oedd yn berson i'w ddychryn yn rhwydd.

Dyma stori'r forwyn. "Roedd Mr Lloyd yn sâl yn ei wely. Danfonwyd fi a gwydraid i'w yfed iddo. Wrth i mi basio'r ddiod iddo caewyd y llenni'r ochr arall i'r gwely, nid gan Mr Lloyd. Rwy'n bendant nad oedd neb arall yn yr ystafell. Dywedai Mr Lloyd y byddai ei wraig yn dal i ymddangos wedi iddi farw wrth droed y gwely.

Dywedir fod Mr Lloyd yn gaeth i'r ddiod feddwol. Roedd ei wyneb yn dangos effeithiau'r frech wen ac roedd ganddo wallt coch. Dywed yr awdur fod yn atgas ganddo Lloyd Davies a'i wraig, (Mrs Stuart gynt). Er hynny, gwnaeth ei ewyllys ar y funud olaf yn gadael y cyfan i Lloyd Davies. Yn angharedig fe fyn llawer o'r cymdogion fod Lloyd Davies wedi gwneud yr ewyllys i'w ffafrio ei hun."

(Cyfieithiad yw'r hanes yma o hanes yn nyddiadur1874 -78, wedi ei hysgrifennu yn ôl y dyddiad, dair blynedd ar ddeg yn ddiweddarach na'r dyddiadur ei hun. – Eifion Davies).

Cymorth i Athrawon

Mae Teacher Support Cymru yn elusen genedlaethol ac annibynnol sydd yn rhoi cefnogaeth ymarferol ac emosiynol dwyieithog i athrawon sydd naill ai o dan hyfforddiant, yn dysgu ar hyn o bryd neu wedi ymddeol, yn ogystal â'u teuluoedd ar draws Cymru.

Ceir amrywiaeth o wasanaethau gan Teacher Support Cymru sydd yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau yn y Gymraeg a'r Saesneg er mwyn helpu athrawon i fynd i'r afael â heriau gwahanol eu proffesiwn.

Mae gennym linell cymorth ffôn am ddim, sydd ar gael 24 awr y dydd a 7 diwrnod yr wythnos, 365 diwrnod y flwyddyn ar 0800 085 5088. Gall ein cynghorwyr a'n hyfforddwyr gynnig gwybodaeth gyfrinachol, cefnogaeth a chynghori.

Lansiwyd Prawf Stres gan Teacher Support Cymru yn ddiweddar, sydd wedi ei lunio er mwyn rhoi argraff o'r materion yn ymwneud â stres a lles a'r modd gellir cyfeirio atyn nhw. Lansiwyd ein gwefan newydd llynedd ac mae nawr yn cynnwys mwy o wybodaeth, cyngor ac offer mewn ffurf hygyrch sydd wedi ei strwythuro'n glir.

Mae pob un o'n gwasanaethau ar gael ar bob adeg o'r dydd drwy gyfrwng e-bost, ffôn a'n gwefan. Ewch i ymweld â'n gwefan er mwyn cael mwy o wybodaeth ac ynglŷn â ffyrdd o gael mynediad at ein gwasanaethau ar www.teachersupport.info. Neu gallwch alw ein rhif cymorth ffôn am ddim ar 0800 085 5088.

Ymgynghorwyr Yswiriant
Eryl Jones
Beth am gysylltu â ni am amcan-bris i'ch holl anghenion yswiriant?
Car, lori, fan, beic modur
Yswiriant tŷ/ cynnwys
Teithio
Fferm a busnes
Cyfrifoldeb
Anifeiliaid
Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant, cyngor a chefnogaeth yn rhad
Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr
Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA
Ffôn: **01570 422401**
Ffacs: **01570 422562**
Authorised & Regulated by The Financial Services Authority

FISHERS ARMS
Bwyd cartref ardderchog nos Iau, Gwener a Sadwrn.
Cwrw traddodiadol. Croeso i awyrgylch Gymreig gan Berian a Beverley Wilkins a'u merched.
Cellan, Llambed
01570 422895

T. Emyr Jones
Adeiladwr
Araul, Cwmann
☎ 01570 423921
07867 945174

CANOLFAN ADDURNO
AA
A
Dewis arbennig o bapur, paent ac offer i wneud addurno yn bleser.
Llyfrau Patrwm, Offer llaw a phwerus, Polion a thraciau llenni, gwasanaeth torri allweddi a pheiriannau cymysgu paent Dulux a Leyland.
Arbenigedd ar garreg eich drws.
3 Stryd y Bont
Llanbedr Pont Steffan
01570 423156

Cludfwyd Indiaidd
NEHAR
newydd agor yn Llambed
Y bwyd wedi ei goginio'n fres bob dydd.
15% o ostyngiad ar archebion dros £10.00.
Y cogydd â dros 20 mlynedd o brofiad o weithio mewn sefydliad indiaidd.
10 Stryd y Bont, Llambed
☎ 01570 422893 / 422175

Gohebiaeth Clonc

O P R A i bawb……. Opra yn Gymraeg

Mae cwmni opera newydd sbon o'r enw OPRA, wedi dewis Pafiliwn Pontrhydfendigaid ar gyfer eu cyngerdd gala i lawnsio'r cwmni. Cwmni cenedlaethol yw hwn a sefydlwyd gan y cyfarwyddwr opera rhyngwladol Patrick Young a'i wraig Sioned. Mae gan yr adeilad, ar ei newydd wedd, awditoriwm enfawr a chaeau godidog o'i gwmpas: lleoliad gwych ar gyfer gweledigaeth ddeinamig cwmni OPRA.

Dim ond yn Gymraeg byddwn ni'n perfformio - mae'n iaith berffaith i ganu opera ynddi – a thrwy wneud hyn byddwn yn cynnig cyfle gwych i berfformwyr ifanc o Gymru berfformio operau ar raddfa llawn yn eu gwlad eu hunain ac yn eu mamiaith. Ar yr un pryd byddwn yn agor drysau opera i gynulleidfa newydd sbon.'

Bu Patrick Young yn gweithio fel cyfarwyddwr opera yn y Tŷ Opera Brenhinol, Covent Garden am flynyddoedd lawer, cyn teithio'r byd yn gweithio gyda rhai o gantorion mwyaf ym myd yr opera. 'Dwi wastad wedi meddwl ei bod hi'n dreuni nad oes cwmni opera Cymraeg ei hiaith ar gael, ac felly dwi a ngwraig Sioned wedi penderfynu mynd ati ein hunain. Dyma wireddu fy mreuddwyd, sefydlu cwmni opera fydd yn perfformio yn iaith y gynulleidfa ac yn gwneud hynny i'r safon uchaf, diolch i'r talent toreithiog sydd gennym yma yng Nghymru.

Bydd darnau cerddorol enwog o'r byd operatig yn cael eu cyflwyno yn y gyngerdd agoriadol, wedi eu cyfieithu gan rai o enawu llenyddol a cherddorol mwyaf Cymru, gydag ambell i gyfuniad anisgwyl: Robin Llywelyn yn gosod geiriau i Puccini, Dafydd Iwan i Mozart, Twm Morys i Purcell i enwi ond rhai.

Bydd egwyl hir yn ystod y perfformiad, felly cofiwch ddod a phicnic gyda chi i'w fwynhau ar lan yr afon yng nghaeau'r Pafiliwn. Mae hyn yn wir yn ddigwyddiad hanesyddol, gan ein bod ni'r Cymry Cymraeg yn cael ein cwmni opera ein hunain am y tro cyntaf, ac i nodi'r achlysur mae cwmni Rhiannon yn Nhregaron wedi creu darn o emwaith arbennig ar y thema 'troad y rhod'. Cynllun newydd sbon i gofnodi'r achlysur ac a fydd ar gael am UN DIWRNOD, ac mewn un lle'n unig – Pafiliwn Pontrhydfendigaid 21in o Fehefin 2009. Felly os hoffech fod yn berchen ar emwaith unigryw a gwahanol dewch draw a chewch fwynhau prynhawn o gerddoriaeth wych ar yr un pryd.

Ysgol Gymraeg Aberystwyth
Coedlan Plascrug
Aberystwyth, SY23 1HL

Annwyl Olygydd

Gwerthfawrogwn yn fawr pe gallem drwy golofnau eich papur bro dynnu sylw eich darllenwyr at ddigwyddiad o bwys yn hanes Ysgol Gymraeg Aberystwyth eleni.

Bydd yr ysgol – sef yr ysgol gynradd Gymraeg gyntaf yng Nghymru – yn dathlu ei phen-blwydd yn 70 oed ym mis Medi 2009 ac mae'r staff a'r Gymdeithas Rhieni Athrawon yn awyddus i nodi'r achlysur. Bydd prynhawn agored yn cael ei gynnal yn yr Ysgol ddydd Gwener, 25 Medi gan roi'r cyfle i rieni, cyn-ddisgyblion, cyn-athrawon a chyfeillion yr ysgol weld yr ysgol ar waith a mwynhau nifer o weithgareddau hwyliog a lluniaeth ysgafn wrth hel atgofion am yr hen ddyddiau. Rydym yn awyddus iawn i groesawu cynifer â phosib i ymuno â ni i ddathlu'r garreg filltir arbennig hon ac yn mawr obeithio y bydd darllenwyr eich papur bro yn eu plith.

Mae pob croeso i chi gysylltu â mi (01970-624615 / broniarth@hotmail.com / Broniarth, Ffordd y Gogledd, Aberystwyth, SY23 2EE) neu â'r Ysgol (01970-617613) os hoffech gael mwy o wybodaeth yn nes at yr amser, ond am y tro, cofiwch gadw'r diwrnod yn rhydd! Bydd croeso cynnes i bawb.

Yn gywir
Tegwen Morris Cadeirydd Cymdeithas Rhieni.

Esgidiau 'Nessa', tei Matthew a ffrog Siân - eiddo'r sêr o dan y morthwyl!

- sut hoffech chi gael eich bachau ar yr eiddo amhrisiadwy yma? Bydd cyfle i brynu pob math o drugareddau'r sêr mewn noson arbennig yn Llety Parc, Aberystwyth nos Wener 19 o Fehefin am 7:30 yh i godi arian tuag at Eisteddfod yr Urdd Ceredigion 2010.

Ymysg yr eitemau fydd ar werth ar y noson mae:- Het Cwpan Ryder 2012 wedi'i harwyddo gan y bariton byd enwog Bryn Terfel, Pâr o esgidiau arian yr actores Ruth Jones sy'n chwarae rhan Nessa yn y gyfres deledu boblogaidd Gavin & Stacey, Tei wedi'i arwyddo gan Matthew Rhys, Ffrog hyfryd oddi wrth Siân Lloyd, Crys t wedi'i arwyddo gan Chris Moyles ac Aled Haydn-Jones.

Bydd cyfle i'r gwesteion gynnig prisiau am y gwrthrychau a mwynhau gwledd yn y 'Cinio ac Ocsiwn Ffasiwn Mawreddog' yn Llety'r Parc, Aberystwyth. Arwerthwr y noson fydd, Glan Davies. Yn goron ar y cyfan bydd adloniant byw gan y bytholwyrdd, Bryn Fôn a'r band.

Pris tocynnau £25, sy'n cynnwys pryd o fwyd 3 chwrs a'r cyfle i glywed Bryn Fôn a'r Band yn perfformio. Mae'r tocynnau ar werth gan aelodau'r pwyllgor, neu trwy e-bostio lowristeffan@hotmail.com neu ffonio 07977 408730 am fanylion pellach.

Catrin Finch a'r Quack Pack i godi arian i Ffagl Gobaith yng Ngwesty Falcondale.

Bydd Catrin Finch yn perfformio mewn dydd o hwyl i'r teulu cyfan yng Ngwesty'r Falcondale, Llambed dydd Sadwrn Mehefin 6ed i godi arian i'r elusen leol Ffagl Gobaith. Mae'r delynores wedi diddanu cynulleidfaoedd led led y byd ond braf bydd ei chael nôl yng Ngheredigion, a hynny i godi arian i elusen sy'n agos iawn at ei chalon. Mae Ffagl Gobaith yn darparu gwasanaeth Hosbis yn y Cartref yn y sir, ac yn helpu pobl sy'n derfynol neu'n ddifrifol sâl mewn amryw ffyrdd.

Bydd digon i gadw pawb yn ddiddig yn ystod y p'nawn gyda Goronwy Evans yn arwain y gweithgaredd. Yn ogystal â pherfformiad Catrin, bydd y grŵp miwsig Chocolat yn diddanu, a Dawnswyr Aberystwyth yn mynd trwy eu pethe. Mae Meirion Owen a'r Quack Pack, - arddangosfa o hwyaid sy'n cael eu rheoli gan gŵn defaid, hefyd yn siŵr o ddiddanu pobl o bob oed.

Gweithgareddau eraill :- Gweithdai sgiliau syrcas; adeiladu bocsys nythu; arlunio; paentio gwynebau; cyfle i gael tro ar delynau Y Dryw Bach; triniaeth harddu a thyluno gan Salon Panacea'; a therapy Thyluniad - pen Indiaidd.

Mae Gwesty'r Falcondale wedi rhoi'r feniw i'r elusen am y dydd ac yn fwy na hynny wedi dewis cefnogi'r elusen am flwyddyn gyfan. Eisoes maent wedi codi dros £1,200 drwy i rai o'r staff fentro ymgymryd â naid parasiwt. Tâl mynediad yn £1". Bydd yr adloniant yn cychwyn am 1 o'r gloch, a'r pnawn yn dod i ben am 5. Gofynnir i bawb barcio ym maes parcio'r Rookery yn y dre a defnyddio'r bws arbennig fydd ar gael i'w cludo i'r Falcondale.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Meleri Morgan yng Ngwesty'r Falcondale ar 01570 422910 info@falcondalehotel.com neu Dana Edwards o Ffagl Gobaith ar 01970 617042 dana.edwards@thebeaconofhope.org.uk

Mae angen help arnom!

Hoffwn apelio ar ddarllenwyr eich papur bro i ystyried ymuno ag un o bwyllgorau codi arian Ffagl Gobaith.

Elusen yw Ffagl Gobaith sy'n darparu Nyrsys Hosbis yn y Cartref a gweithwyr eraill i helpu pobl sy'n derfynol sâl neu'n dioddef o salwch difrifol yng Ngheredigion.

Rydym yn awyddus i ehangu ein pwyllgor yn Aberystwyth ac i sefydlu pwyllgorau codi arian ymhob tref yn y sir. Tasg gyntaf pob grŵp fydd trefnu taith gerdded noddedig leol ym mis Hydref i ddathlu dydd Hosbis y Byd. Rhwydd hynt i'r pwyllgorau wedyn ddewis pa weithgareddau eraill y dymunant eu trefnu. Felly os oes gennych syniadau da, neu eich bod yn hapus i dorchi llewys er budd yr elusen leol hon, plîs cysylltwch â fi.

Yn gywir iawn *Dana Edwards* (manylion uchod)

Creative Cove
40A Y Stryd Fawr, Llambed, ☎ 421985
Ystod eang o offer swyddfa a deunyddiau celf a chrefft am brisau cystadleuol iawn.
Yn cynnwys:
- Certris inc a deunyddiau cyfrifiaduron eraill, - cardiau cyfarch, - mapiau arolwg ordnans, - deunyddiau postio a phacio, - deunyddiau gwneud cardiau a llyfrau lloffion, - pecynnau crefft i oedolion a phlant, - paent Winsor a Newton, - padiau brasluniau arlunwyr, cynfas a phapur dyfrlliw.

Ruth Thomas a'i Chwmni
Cyfreithwyr
19 Stryd y Coleg, Llambed
Ffon: 423300 Ffacs: 423223
mail@ruththomassolicitors.co.uk
yn cynnig pob gwasanaeth cyfreithiol
Apwyntiadau hwyr neu yn eich cartref

W.D. Lewis a'i Fab
Masnachwyr Amaethyddol
☎ 01570 422540
Melin Mark Lane, Stryd y Bont, Llanbedr Pont Steffan
Am holl fwydydd a nwyddau amaethyddol, cysylltwch â ni.

WILLIAMS & BOURNE
CYFREITHWYR. COMISIYNWYR LLWON
Trosglwyddiadau a phob gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.
1 Sgwâr Harford, Llambed
☎ 01570 422206 🖷 01570423540
A thrwy apwyntiadau yn Nhregaron, Llanybydder, Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.

CEGIN GWENOG
Abernant, Llanwenog
Gwasanaeth arlwyo cyflawn ar gyfer pob achlysur
- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes

Bwydlenni unigol i ateb eich gofynion chi - boed yn fawr neu'n fach
Mair Hatcher
01570 481230 / 07967 559683

Yn y Gegin gyda Gareth

Mwynhau pryd 3 cwrs ym Mehefin.

Gobeithio y cawn ychydig o heulwen y mis yma, er mwyn cael cyfle i fwynhau'r pryd 3 cwrs yma allan yn yr ardd. Coginio yn y gegin, yna bwyta allan; patrwn `rwyf wrth fy modd yn ei ddilyn. Tipyn haws na barbaciw, ac mae yna gasgliad cyffrous o gynhwysion yn mentro i'r gegin. Mwynhewch manteision mis Mehefin.

Pob hwyl,
Gareth.

Swffle Eog a Berw dŵr.

Cynhwysion:-
2 owns o fenyn
3 llond llwy fwrdd o flawd plaen
½ llond llwy de o fwstard
½ llond llwy de o saws Caerwrangon
8 llond llwy fwrdd o laeth
2½ owns (75gm) o ferw dŵr wedi'i dorri'n fân.
4 ŵy (wedi'u gwahanu).
1 tun o eog pinc.

Dull
1. Trowch y ffwrn i 190ºC 375ºF Nwy 5
2. Toddwch y menyn mewn sosban a defnyddiwch ychydig i uro disgyl 2 beint.
3. Ychwanegwch y blawd, mwstard a saws Caerwrangon i wneud past. Yn araf ychwanegwch y llaeth a dychwelwch i'r gwres i greu saws trwchus. Blaswch gydag halen a phupur.
4. Plygwch y berwdwr i'r cyfan a gadewch i oeri, yna'r eog a'r melyn ŵy.
5. Curwch y gwyn ŵy ac ychwanegwch i'r gymysgedd, rhowch y cyfan yn y ddisgyl a'i roi yn y ffwrn am 30 munud.
6. Gweinwch gyda salad a bara.

Cyw Iar, blas Morocco a Cwscws.



Cynhwysion.
1 winwnsyn coch wedi'i dorri'n fân.
500 gm o gig cyw iâr
200 gm o cwscws
1 pupur melyn
1 tun 240 gms o chickpeas
1 tomato wedi'u torri'n fân
Llond llwy de o Sinamon
Llond llwy de o Cumin
50 gms o fricyll sych wedi'i torri'n fân.
1 shibwnsyn wedi'i dorri'n fân.

Dull
1. Torrwch y cyw iâr yn ddarnau a'i ffrio mewn padell i roi lliw iddo. Paratowch y cwscws wrth ddilyn y cyfarwyddiadau ar y pecyn.
2. Ychwanegwch y winwnsyn a'i ffrio am 2 funud, yna'r pupur melyn a'i ffrio am 6 munud.
3. Ychwanegwch y chickpeas, tomato a'r sbeis a choginiwch am 2 funud.
4. Cymysgwch y bricyll a'r shibwnsyn yn y cwscws. Rhowch ar blât, gyda'r cyw iâr ar yr wyneb. Gweinwch gyda iogwrt.

Treiffl ffrwythau'r Haf.

Cynhwysion
200 gram o fefus wedi'u darnio.
600 gram o ffrwythau'r haf (llus, mwyar, mafon).
3 llond llwy fwrdd o siwgwr caster
125 gram o fisgedi Amaretti
Un pot o gwstard ffres.

Dull
1. Gosodwch yr aeron a'r siwgwr mewn sosban a choginiwch nes eu bod yn dechrau meddalu. Gadewch i oeri; defnyddiwch lwy i godi'r ffrwythau o'r sudd.
2. Chwalwch y bisgedi, yna'u gosod ar waelod disgyl ond cadwch lond dwrn gogyfer ag addurno.
3. Rhowch haenen o gwstard dros y bisgedi, wedyn haenen o ffrwythau, haenen o gwstard, ffrwythau yna gweddill y cwstard.
4. Addurnwch gyda gweddill y bisgedi.

MiS y PaPUr NeWYDD

Colofn Dylan Iorwerth

Y gog, yr ehedydd a Golwg360

Ges i syndod y diwrnod o'r blaen. Darllen stori yn y papurau fod y gog yn brin ... ac yn mynd yn brinnach.

Mae'n debyg fod cymdeithas adar yr RSPB yn dweud fod 61% yn llai o gogau erbyn hyn, a finnau wedi ei gweld a'i chlywed hi fwy eleni nag erioed o'r blaen.

Erbyn hyn, mae'r hen greadures wedi cael ei rhoi ar y Rhestr Goch o'r adar sydd mewn mwya o beryg. Ond nid uwchben Dyffryn Teifi.

Sawl tro eleni, ar y gefnen o fryniau sy'n mynd o Barc y Rhos heibio Llanybydder ac i Brechfa, ryden ni wedi ei chlywed hi – y ddau nodyn yn cario ymhellach na chân yr un aderyn arall ac weithiau yn adleisio oddi ar y llethrau.

Ond, yn fwy na hynny, mae hi i'w gweld yn glir, wedi gadael y coed i orffwys ar wifren deleffon, neu'n sgimio'n isel tros y grug a'r twmpathau llus. Ddwywaith, ynghynt yn y tymor, mi welson ni ddwy – fel yn achos pobol, mae cyplau'n llawer mwy clos yn nyddiau cynnar y paru.

Sôn amdani ¬hi y byddwn ni, er mae'n debyg mai dim ond y ceiliog sy'n canu. A'r ceiliog sydd i'w weld fel arfer hefyd, yn dwmpyn bach llwyd, llawer llai deniadol na'i gân. Heb sôn am ei arfer o fenthyg nyth aderyn arall i ddodwy ei ŵy marwol.

Mae'n rhaid ein bod ni wedi ein breintio yn yr ardal yma ... ac nid y gog ydi'r unig ryfeddod wrth gerdded y tir gerwin rhwng Ceredigion a Sir Gaerfyrddin. Mae yna ysbrydoliaeth i'r glust a'r llygad fel ei gilydd.

Chlywais i erioed gymaint o ehedyddion chwaith. Fel yn achos y gog, mae honno hefyd yn haws i'w chlywed na'i gweld. Mi fydd ei chawod nodau'n pistyllio drosoch chi a hithau'n codi'n uwch ac uwch tros eich pen.

I ddechrau, mae hi fel petai hi'n dringo rhaff o nodau a'r gân yn ei thynnu hi i fyny; erbyn cyrraedd y man ucha' mae hi fel hofrennydd achub yn taflu ei chân i lawr atoch chi i'ch gwahodd chi i'w dilyn. Neu fel un o'r tân gwyllt ecsotig yna sy'n tywallt eu rheadrai o wreichion ... ond mae gwreichion o sŵn ydi'r rhain.

Ond all y gân hyd yn oed ddim curo'r olygfa. Ar ddiwrnod clir, mi welwch chi hanner Cymru, o fryniau Malvern a'r ddwy gadwyn o Fannau i'r Preseli yn y Gorllewin ac yn ôl i fyny tros Bumlumon i Gadair Idris at yr Wyddfa a Chrib Nantlle.

Er mor fawr ydi'r rheiny, mi welwch chi fwy o'r fan hyn. Ac mae yna wers yn fan'na rhywle.

Gwers arall. Peidiwch â gweithio gydag anifeiliaid na phlant, medden nhw. Ac mi ychwanegaf innau gompiwtars.

Mi gafodd gwasanaeth newydd Golwg ei lansio ac mi fyddai popeth yn grêt oni bai am y problemau technegol.

Am ryw reswm, roedd lluniau'n diflannu a doedd pethau ddim yr un fath ar bob peiriant ac, am ychydig ddyddiau, roedd pethau'n rhwystredig iawn. Roedd yna ryw gwcw wedi dodwy yn ein nyth ninnau am gyfnod byr.

Erbyn hyn, mae pethau'n gweithio a Llanbed yn ganolbwynt i'r unig wasanaeth o'r fath – newyddion Cymru a'r byd; a'r cyfan trwy'r Gymraeg. Does dim rhaid prynu papur dyddiol bellach – os nac ydach chi eisio wrth gwrs.

Ac mae'n hawdd. Tri chwech dim ydi'r enw. Pwyso deirgwaith ac mi fyddwch chi yno – ymlaen, y rhyngrwyd a Golwg360; mae yna chwech prif ran i ddewis ohonyn nhw ac wedyn does dim trafferth.

Mi fydd yna lawer rhagor i ddod. A dyma'r gwahoddiad i chi eto i anfon straeon a lluniau i mewn. Ar ôl cael y gwasanaeth sylfaenol i weithio'n iawn, mi fyddwn yn ychwanegu rhagor a rhagor o bethau. Yn codi, gobeithio, rhywbeth tebyg i'r ehedydd fach.

Carnifal Cwmann

Nicola Jones y frenhines, Hannah Evans ac Ann Davies y morwynion, Cartin Owen brenhines y rhosynnau, David Rees a Scott Griffiths y gweision bach.

Y Fflot orau - 'Mae gan Gwmann dalent.'

Yr ail fflot - 'Sainsbury's yn dod i Lambed.'

Plant dan 4 - Leon Hughes, Rhun Jones a Gwenllian Jones.

Cymeriad teledu dan 10 - Cai, Owen ac Owen.

Cystadleuydd gorau dan 16 - Dafydd Jones.

Dan 12 - Hari Button, Iwan Williams a Sion Williams.

Oedolion - Wendy, Huw a Muriel.

Ffagl Gobaith
Beacon of Hope

Ydych chi'n gofalu am rywun?
A ydych wedi bod yn gofalu am rywun yn y gorffennol?

Os taw ie yw'r ateb yna ymunwch â ni ar ddydd Mercher 10fed Mehefin rhwng 10yb a 3yp.

Fel rhan o'r wythnos gofalu bydd gwybodaeth ar gael wrth nifer o sefydliadau. Hefyd, bydd cyfle i siarad â Sally Bates, Gweithwraig Maes Gofalwyr gyda'r Groes Goch Brydeinig.

Darperir te a choffi.
Galwch mewn i:
Ffagl Gobaith, Manchester House, Stryd y Bont, Aberteifi
01239 614989 (drws nesaf i Charmaine's Garden)

Merched y Wawr Llanbedr Pont Steffan a'r Cylch

CYMANFA GANU
yn NODDFA
Nos Sul 28 Mehefin
am 7 o'r gloch.

Llywydd: Catherine Williams, Cricieth
Arweinydd: Rhiannon Lewis
Organyddion: Margaret Jones ac Elma Phillips
Artistiaid: Carys Lewis ac Elin Williams

Rhaglen: £4 Plant am ddim

Elw tuag at Gymdeithas Motor Neurone De Orllewin Cymru, Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Ceredigion 2010 ac apel Sioe Frenhinol Ceredigion 2010

Sefydliad Prydeinig y Galon
Ardal Llanybydder a Llambed

Bore Coffi
Yn "Cameo" Stryd Fawr
Sadwrn Mehefin 13
10 o'r gloch tan 1
Mynedia trwy rodd
I'w agor gan Cyng Ifor Williams
(Cadeirydd Cyngor Sir Ceredigion)

Elw tuag at BHF apêl Nyrs
Calon Cerdigion
Rhif Elusen 225971

- Troad Y Rhod -
Cyngerdd Gala Agoriadol
OPRA Cymru
3 o'r gloch
Dydd Sul 21ain o Fehefin 2009
Y Pafiliwn Pontrhydfendigaid

Huw Garmon yn cyflwyno:
Mari Wyn Williams
Rhian Lois Evans
Eldrydd Cynan Jones
Leah Marian Jones
Gareth Huw John
Geraint Dodd
Jeremy Huw Williams
Sion Goronwy

Côr Caerdydd
a Cherddorfa Ieuenctid OPRA
dan arweiniad Gareth John

Tocynnau £13 / £8 i blant
(£10 yr un am grwpiau o 20 neu fwy)

Cysylltwch â:
www.opracymru.org.uk
☎ 0844 335 8303

Cegin Coedlannau
'Bwyd cartref ar gyfer pob achlysur'
* Cacennau pen-blwydd gyda llun (ffotograff)
* Bwffe mawr neu fach
* Danteithion i de
* Pwdinau
* Arlwyo ar gyfer pob achlysur

Sirian Davies, Coedlannau Fach, Cwrtnewydd,
01570 434 243
07815 962 045

Welsh Dyslexia Project
Prosiect Dyslecsia Cymru

Elusen gofrestredig 1086865

Tiwtoriaid i gefnogi plant a phobl ifanc dyslecsig

Rydym yn chwilio am bobl brofiadol ymhob rhan o Gymru sydd â diddordeb i ymwneud â'r gwaith uchod yn y cartref, gydag unigolion o bob oedran. Bydd profiad o ddysgu, arbenigedd yn y maes Dyslecsia a'r gallu i gynnig cefnogaeth yn y Gymraeg a / neu'r Saesneg yn ddelfrydol.

Am fwy o fanylion, cysylltwch â
Ruth Davies (Rheolwr Prosiect)
neu Non Edwards (Cydlynydd Gwirfoddolwyr)
ar 08844 8800 926
pm@welshdyslexia.org
admin@welshdyslexia.org

Cornel y Plant

I blant dan 8 oed

Dol-Mebyd
Pencarreg

Annwyl Blant,

Sut ydych chi gyd? Mae wedi bod yn wythnos a hanner arna i a Joni Jacos, fy nghefnder, fe wnaethon ni feddwl mynd i'r 'Steddfod yng Nghaerdydd ond yn anffodus roedd coesau Joni'n rhy wan i gerdded yr holl ffordd ac fe gyrhaeddon ni ddim ond Caerfyrddin. Diolch i'r drefn i ni gael lifft ar y ffordd nôl.

Roedd safon y lliwio'n arbennig o dda'r mis hwn fel arfer, gyda chlod arbennig yn mynd i Laura Gaskell o Gaerdydd, Rhodri Jac o Dy Mawr ac Owen Heath o Lambed. Ond yn dod i'r brig y mis hwn mae Heledd Jenkins, Llysfaen Uchaf, Llanwnnen, Llambed.

Llongyfarchiadau mawr ichi gyd a chofiwch fynd ati i liwio llun y mis hwn a'i ddanfon ataf mewn da bryd.



Enillydd y mis!

Heledd Jenkins



Hawlfraint: 2009 HIT Entertainment Limited
Hawlfraint: 2009 Prism

Enw:

Cyfeiriad:

'STORI I'N SWYNO'

I blant dan 12 oed

Ar goll yn y niwl

'Dere Lisa!' gwaeddais ar draws y cae ceffylau un bore gwyntog o Hydref. Dyma Lisa yn dod ar garlam ar draws y cae i'm cwrdd. Fe roddais foronen iddi a'i harwain draw i'r stabal. Fe wnes i roi'r cyfrwy a ffrwyn amdani a dweud wrth mam fy mod i'n mynd am wac i'r mynydd gyda Lisa'r gaseg.

'Iawn', dywedodd mam. 'Ond paid â bod yn hir mae'r tywydd yn dweud fod niwl ar y ffordd!'

Felly dyma fi a Lisa yn cychwyn am wac i'r mynydd. Fe welais llawer o bobl tu allan eu gerddi yn gwneud ambell beth ac ambell ffarmwr yn ei dractor yn codi bys bawd wrth fynd heibio. Y peth mwyaf oedd ei bod hi'n dawel ar y mynydd gyda dim sŵn traffic yn mynd heibio ar y ffordd fawr, a dim sŵn beic modur yn refio yn y cae. Roedd hi'n dawel ac unig ar y mynydd, jest y lle i gael llonydd. Roedd Lisa yn amlwg yn mwynhau ei hun yn fawr iawn oherwydd dyma hi'n mynd ar ras ar draws y mynydd. Fe stopiodd cyn bo hir wedi blino'n lân ar ôl yr holl redeg. Roeddem yn gweld ambell ddafad yn awr ac yn y man, ac ambell Shetland chwareus.

Cyn hir fe ddechreuodd y niwl ledaenu ar draws y mynydd felly dyma ni'n cychwyn am nôl. Roeddwn yn dechrau poeni cyn hir oherwydd ein bod ni yn bell o adref a'r niwl yn mynd yn fwy trwchus. Yn y diwedd roedd yn rhaid i mi aros oherwydd doedd gen i ddim syniad lle roeddwn ni. Roedd y niwl mor drwchus doeddwn i ddim yn gwybod pa ffordd oedd adref. Roeddwn i ar goll yn y niwl! Yn sydyn dyma Lisa yn dechrau cerdded heb i mi ddweud wrthi, doedd gen i ddim syniad beth oedd hi'n neud. Ond wedyn fe sylweddolais ei bod yn mynd â ni adref, felly fe ollyngais yr awenau a chydio yn ei mwng. Doeddwn i ddim yn gallu credu'r peth, roedd Lisa yn ffroenu ei ffordd adref. Cyn hir fe gyrhaeddon ni adref. Roedd mam a dad wedi bod yn poeni yn ofnadwy amdanaf, ac fe ddywedais wrthynt be' ddigwyddodd a sut ddaeth Lisa â ni adref. Ar ôl te aeth pawb allan i roi sylw i Lisa ac roedd hi yn mwynhau bob tamed ohono.

Stori Luned Medi Jones

Cyfle i ennill Tocyn Llyfr gwerth **£10**

Cystadleuaeth frwd y mis hwn eto ac mor braf gweld fod y teitl wedi denu cymaint o syniadau bach cyffrous a oedd yn bendant yn apelio. Llongyfarchiadau gwresog i Luned Medi Jones o Flaencwrt, Llanwnnen sef enillydd y mis hwn. Mwynhewch ddarllen ei stori. Ewch ati eto blant y mis yma i ysgrifennu eich storïau.

Y teitl ar gyfer stori y mis yma yw:

'Y TRIP'.

Dim mwy na 500 o eiriau.

Cofiwch anfon eich stori at: 'Y Dewin Doeth',
Glasfan, Drefach,
Llanybydder,
SA40 9SY neu
cystadleuaeth@clonc.co.uk

O gwmpas y fro

Cystadleuaeth Rygbi Ieuenctid Llambed 2009. Yn y gystadleuaeth i blant dan 11 oed Llambed enillodd trwy guro CRICC Caerdydd 2 – 1. Gyda'r tîm yn y llun mae'r hyfforddwyr Arwyn ac Emyr Jones.

Cystadleuaeth Rygbi Ieuenctid Llambed 2009 - Daeth y tîm dan 10 yn ail i CRICC (Caerdydd). Yn y llun gyda'r tîm gwelir Gary Jones, David Davies a Huw Davies, eu hyfforddwyr.

Disgyblion Ysgol Carreg Hirfaen ar Fannau Brycheiniog.

Disgyblion Ysgol Carreg Hirfaen yn Llangrannog.

pedr financial planning

Ymgynghorwyr Ariannol Annibynnol

Buddsoddiadau
Pensiynau
Morgeisiau
Diogelwch

20 Stryd Fawr
Llanbeder Pont Steffan
SA48 7BG

01570421925
enquiries@pedrfinancialplanning.co.uk

Pedr Financial Planning is a trading style
of The Clarkson Hill Group PLC

Disgyblion Ysgol Cwrtnewydd ar draeth Llangrannog.

D & C Rallying

Rhif Ffôn 01570 434 244 / 07973 420 664
CEIR - FANIAU - CERBYDAU 4x4

Gwasanaethu ac atgyweirio o bob math
a pharatoi eich car ar gyfer MOT

*** Teiars o bob math * Olew * Filteri * Batris * Brêcs ***

Am bopeth i'ch car, dewch yma aton ni
Tanrhos, Cwrtnewydd, Llanybydder Ceredigion, SA40 9YN

Chwaraeon

Tîm Rygbi Llambed yn Rownd Derfynol Powlen SWALEC yn Stadiwm y Mileniwm

Neb ar ôl yn Llambed!

Ddydd Sadwrn 9fed Mai aeth torfeydd o ardal Llanbedr Pont Steffan i Gaerdydd. Roedd tîm rygbi'r dref wedi cyrraedd rownd derfynol Powlen SWALEC yn Stadiwm y Mileniwm, a chefnogi'r bechgyn oedd y nod gan bawb.

Archebwyd cannoedd o grysau polo arbennig i'r cefnogwyr, trefnwyd nifer o fysus, a phrynwyd tua mil o docynnau. Y canlyniad oedd bod y Stadiwm am un o'r gloch y prynhawn yn ferw o floeddiadau "Llambed, Llambed, Llambed".

Roedd hi'n deimlad rhyfedd i'r cefnogwyr oedd yno yn y stadiwm genedlaethol a phawb o fewn golwg yn y seddau yn wynebau cyfarwydd. Pobl fyddai fel arfer ar strydoedd Llambed yn un dyrfa fawr. Roedd hi'n achlysur o ddiwrnod, cael cefnogi'r tîm lleol yn chwarae ar yr un borfa â'r tîm cenedlaethol. Enwau bechgyn ifanc ardal Clonc yn herio tîm Treforys."

Roedd hi'n gêm agos iawn, a Llambed yn llawn haeddu ennill. Ond y sgôr ar ddiwedd y gêm oedd Treforys 20 Llambed 17. Cafodd Carwyn Gregson, Werna, Cwmann gais llwyddiannus, a Huw Thomas, Beehive Radio, Llambed gafodd weddill y pwyntiau am gicio medrus. Gweddill y garfan oedd, Jason Thomas, Chris Thomas, Tim Evans, Owain Jones, Aled Thomas, Mark Saunders, Paul Fingleton, Gareth Griffiths, Gary Davies (Capten), Dylan Davies, John Rhys Jones, Llyr Jones, Geraint Thomas, Dafydd Jones, Lee John Lloyd, Joe Thomas a Dewi Williams. Cafodd Dewi ei ddewis yn Chwaraewr Gorau. Y masgot bach oedd Leon.

Roedd hi'n ddiwrnod i'w gofio i'r chwaraewyr, partneriaid, teuluoedd, ffrindiau a chefnogwyr. Yn wir, uchafbwynt hanes y Clwb yn ôl rhai. Llongyfarchiadau i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y tîm.